

# GWLAD EIN DYFODOL

## FFERMIO AMAETHECOLEGOL: CREU DYFODOL LLE MAE POBL A NATUR YN FFYNNU

Astudiaethau achos o chwe fferm Amaethecolegol sy'n dangos arferion da, ac argymhellion i Lywodraeth Cymru.

MEWN PARTNERIAETH GYDA

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales



# CYNNWYS


1. **Crynodeb Gweithredol** 4
2. **Cyflwyniad** 6
3. **Crynodeb o'r canfyddiadau** 9
4. **Argymhellion polisi a hyfforddiant** 20
5. **Casgliad** 27
6. **Astudiaethau achos** 28

**Fferm Rest** 29
**Fferm Nantclyd** 45
**Fferm Glancynin** 57
**Fferm Slade** 69
**Wild Shepherd** 77
**Tyddyn Teg** 81



Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan WWF Cymru, ysgrifennwyd gan Dr Amber Wheeler, Gweithwyr Tir a chydlynwyd gan Synnwyr Bwyd Cymru.

Diolch i'r holl ffermwyr a gymerodd ran ac am rannu eu straeon ysbrydoledig gyda ni.



Hawlfraint lluniau: Aled Llywelyn / WWF Cymru.
Onibai am:
Lluniau ieir trwy garedigrwydd Liz Findlay.
Lluniau Wild Shepherd trwy garedigrwydd Erinna Rogers.



Dyma ail argraffiad yr adroddiad, argraffwyd fis Gorffennaf 2023..

**www.wwf.cymru**

**@wwfcymru**

# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae ffermio Amaethecolegol yn ei holl ffurfiau yn gyfle rhagorol i gynhyrchu bwyd o safon uchel yn ein cymunedau. Mi all weithio â natur, yn hytrach nag yn ei erbyn, i adfer bioamrywiaeth a helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, i sicrhau bwyd iach a system ffermio i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar chwe astudiaeth achos o ffermio Amaethecolegol amrywiol, fferm gig eidion adfywiol; fferm laeth sydd wedi sicrhau ardystiad Organig a Phorfa am Oes yn Sir Gaerfyrddin, menter gydweithredol sy'n tyfu llysiau organig yng Ngwynedd; fferm gymysg dofednod ac wyau Fioddynamig ardystiedig ar arfordir Ceredigion; fferm arfordirol gymysg ag ardystiad Organig ym Mhen-y-bont ar Ogwr a phartneriaeth bugeiliaid cynaliadwy yn ucheldiroedd Powys. Mae hanner y ffermydd yn eiddo i'r ffermwyr, mae dwy'n denantiaethau ac mae un yn cael ei rhedeg yn gydweithredol ac maent yn amrywio rhwng o 30 i 80 erw o ran maint.

Er eu bod yn amrywiol, mae pob un o chwe fferm yr astudiaeth achos yn rhannu'r un genhadaeth i adael gwaddol positif i genedlaethau'r dyfodol ac i ffermio mewn ffordd sy'n:

- **Annog ffermwyr y dyfodol ac sy'n cynnig ffordd dda o fyw**
- **Gweithio heb lawer o wrteithiau na phlaladdwyr cemegol**
- **Ailgylchu gwastraff planhigion ac anifeiliaid a gwella iechyd y pridd**
- **Gweithio â natur; cadw'r bridiau cywir ar y lefelau cywir**
- **Heb ddibynnu ar borthiant wedi'i gynhyrchu'n allanol**
- **Cynyddu bioamrywiaeth**
- **Lliniaru newid yn yr hinsawdd**
- **Cynhyrchu bwyd maethlon, o safon uchel â chyn lleied â phosibl o brosesu i gymunedau ac sy'n helpu cymunedau incwm isel**
- **Creu cyfleoedd a swyddi addysgol.**

Mae mwy a mwy o ffermwyr yn gweld buddiannau dulliau amaethecolegol. Ond mi all fod yn anodd iawn gwneud bywoliaeth yn cynhyrchu bwyd o safon uchel i farchnadoedd lleol ar yr un pryd â gwella'r amgylchedd. Os yw Llywodraeth Cymru am gael bwyd iach a maethlon sy'n gwella'r amgylchedd yng nghalon cymunedau ledled Cymru, mae'n bwysig bod ffermwyr yn cael eu helpu i wneud hyn. Dylai'r help hwn

1. **Gwobrwyo arferion amgylcheddol a chanlyniadau'n ariannol yn awr**
2. **Cefnogi cadwynau cyflenwi o'r Fferm i'r Fforc**
3. **Dadwneud y datgysylltiad: gwobrwyo ffermwyr yn ariannol am gysylltu ag ysgolion a theuluoedd incwm isel**
4. **Parhau i ddatblygu cefnogaeth garddwriaethol a pharhau gyda Chyngor Ffermio Amaethecolegol**
5. **Creu cynllun Prentisiaeth Ffermio a Garddwriaeth Cynaliadwy**



# 2. CYFLWYNIAD

## CEFNDIR

Mae effaith amgylcheddol gweithgarwch dynol ar natur a'r hinsawdd erbyn hyn yn bygwth goroesiad pob math o fywyd ar ein planed. Ers 1970, rydym wedi gweld dirywiad trychinebus o 68% ar gyfartaledd ym maint poblogaethau bywyd gwyllt yn fyd-eang. Yn ystod y degawd nesaf, rydym yn wynebu her driphlyg; diwallu anghenion bwyd poblogaeth ddynol sy'n tyfu a hynny ar adeg pan mae'r hinsawdd yn newid yn ddramatig a chydag argyfwng bioamrywiaeth ar dir a môr.

Wedi'i hategu gan wyddoniaeth, gweledigaeth strategol WWF Cymru yw y bydd **arwyddion hanfodol natur yn gwella erbyn 2030 – byddwn wedi atal colledion natur**. Rydym yn gweithio i osgoi'r chweched diflaniad torfol o fywyd ar ein planed – os ydym am newid hynny o ran colledion natur, rhaid inni ysbrydoli pawb i fynd i'r afael â'r bygythiadau mwyaf i natur a dyfodol ein planed. Yn y frwydr hon dros ein byd, un o'r prif feysydd mae WWF Cymru yn ei bwysleisio yw **cyflymu'r newid i system fwyd ac amaethyddiaeth gynaliadwy a chyfiawn**.


Mae ffermio'n ganolog i sut yr ydym yn defnyddio tir yng Nghymru – **mae bron i 90% o'r wlad yn dir amaethyddol**. Felly mae helpu ffermwyr i fabwysiadu arferion ffermio sy'n ystyried yr hinsawdd a natur yn hanfodol i newid ein dyfodol. Gyda Chymru'n awr y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (UE), mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am lunio polisi ffermio a defnydd tir y wlad. Mae WWF Cymru'n gweld hyn fel cyfle gwych i wneud yn siŵr y bydd dyfodol ffermio a chynhyrchu bwyd yn 'gynaliadwy' yng Nghymru – sy'n golygu y bydd yn addas ar gyfer y dyfodol, yn dda i bobl, natur a'r blaned, yn ogystal â ffermwyr Cymru.

I ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, rhaid inni gael Deddf Amaethyddiaeth gref i Gymru; un sy'n cefnogi ffermwyr a rheolwyr tir eraill ac sydd hefyd, yn bwysig iawn, yn amddiffyn y tir a'i fioamrywiaeth. Dyna sut y gallwn sicrhau bwyd o safon uchel a bywyd gwyllt sy'n ffynnu i'r cenedlaethau i ddod.

Mae'r term amaethecoleg yn ymgorffori llu o ddulliau ffermio cynaliadwy sy'n gwerthfawrogi natur a bioamrywiaeth, llesiant anifeiliaid a phobl, ac sydd â'r nod o gyflenwi bwyd i gymunedau lleol. Gellir grwpio dulliau ffermio Organig, Biodynamig, Adfywiol, Permaddiwylliant o gyd o dan y term amaethecoleg.

**AMAETHECOLEG - GWYDDOR, ARFER GWEITHIO A MUDIAD SY'N GWELLA BWYD A SYSTEMAU FFERMIO, SY'N HYBU FFERMIO ADFEROL AC SY'N RHOI POBL (FFERMWYR, CYNHYRCHWYR BWYD, DINASYDDION) WRTH GALON DATRYSIADAU.**






Nid yw ffermio a gwarchod yr amgylchedd yn rymoedd cyferbyniol; maent yn hytrach yn gyd-ddibynnol. Mae ffermio'n dibynnu ar natur, ond mae ar natur hefyd angen gofal ffermwyr. Fel rhan o'n gwaith i gefnogi datblygu Deddf Amaethyddiaeth newydd i Gymru a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy cysylltiedig, mae WWF Cymru wedi comisiynu'r adroddiad astudiaethau achos hwn, sy'n edrych ar ffermio adfywiol ac amaethecoleg, a'r buddiannau sy'n dod yn eu sgil.

Dychmygwch Gwlad Ein Dyfodol lle'r ydym yn adfer natur, yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac yn sicrhau bwyd iach, cynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol. Os yw hyn am ddigwydd, rhaid i ni gael system newydd o daliadau amaethyddol sy'n rhoi amaethecoleg yn ganolog iddi; a fydd yn gwella systemau bwyd a ffermio, yn cefnogi ffermio adferol, ac yn rhoi pobl – ffermwyr, cynhyrchwyr bwyd a dinasyddion - wrth galon datrysiadau.

Mae potensial enfawr i ehangu dulliau ffermio amaethecolegol. Rydym yn cyflwyno'r potensial hwnnw yma ar ffurf chwe astudiaeth achos amrywiol o wahanol agweddau ar ffermio. Dilynir hyn gan set o argymhellion polisi i Lywodraeth Cymru.



## CYMRU: AMRYWIAETH O FFERMYDD

Dewiswyd chwe fferm ar gyfer yr astudiaethau achos i gynrychioli amrywiaeth y ffermydd a ffermwyr amaethecolegol yng Nghymru: Fferm Rest – fferm cig eidion ardystiedig Adferol ger Hendy-gwyn ar Daf, sir Gaerfyrddin; Glancynin – fferm laeth sydd wedi sicrhau ardystiad Organig a Phorfa am Oes, ger Sanclêr, Sir Gaerfyrddin; Tyddyn Teg – menter gydweithredol sy'n tyfu llysiau amaethecolegol ger Caernarfon, Gwynedd; Nantclyd – fferm gymysg dofednod ac wyau ardystiedig Fioddynamig ar arfordir Ceredigion; Fferm Slade – fferm arfordirol gymysg ag ardystiad Organig ger Pen-y-bont ar Ogwr Wild Shepherd – partneriaeth bugeiliaid cynaliadwy yn ucheldiroedd Powys. Mae hanner y ffermydd yn eiddo i'r ffermwyr, mae dwy'n denantiaethau ac mae un yn cael ei rhedeg yn gydweithredol ac maent yn amrywio o 30 ac 80 erw o ran maint.

Mae'r astudiaethau achos yn dangos bod amaethecoleg i'w gael ar hyd a lled Cymru, yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau ffermio, a'i fod yn denu ffermwyr y dyfodol ac yn llwyddo'n gyson i gyflawni o ran cynyddu bioamrywiaeth, lliniaru newid yn yr hinsawdd, creu cymunedau cryfach a chynhyrchu bwyd maethlon, cynaliadwy i galon cymunedau. Gellir dod o hyd i'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn o dudalen 29 ymlaen.



# 3. CRYNODEB O GANFYDDIADAU'R ASTUDIAETHAU ACHOS

Ymhlith amrywiaeth o ffermydd a mathau o ffermio, mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos buddiannau ffermio amaethecolegol:

## ANNOG FFERMWYR Y DYFODOL

Mae'r holl ffermydd dan sylw'n cael eu rhedeg gan deuluoedd neu gan bartneriaethau o bobl sy'n gweithio â'i gilydd, brawd-brawd, mam-mab, mam-merch, gŵr-gwraig a menter gydweithredol. Mae pob un o'r ffermydd yn dangos bod cenhedlaeth newydd yn cael ei denu i amaethyddiaeth gan ffordd gynaliadwy o ffermio: dau frawd yn gadael swyddi i ffwrdd o gartref i weithio ar fferm cig eidion adferol, mab yn dychwelyd i weithio mewn busnes dofednod bioddynamig, merch yn dod adref o'r coleg i weithio fel bugeilies gynaliadwy ac 11 o aelodau menter gydweithredol newydd yn gweithio â'i gilydd i dyfu llysiau amaethecolegol. Roedd gan hyd yn oed y cwpl hŷn weithiwr ifanc ar y fferm laeth organig a oedd wedi'u denu gan y dull o ffermio. Mae ffermio amaethecolegol yn helpu i ddod â chenhedlaeth newydd o ffermwyr i sector sy'n heneiddio.



## GWEITHIO HEB LAWER O WRTEITHIAU A PHLALADDWYR CEMEGOL

Nid yw'r mwyafrif o'r ffermwyr hyn yn defnyddio gwrteithiau na phlaladdwyr cemegol ac felly maent yn gallu ymdopi yn ystod cyfnodau o brinder a phrisiau ansefydlog. Yn achos tyfwyr llysiau mae hyn yn golygu defnyddio compost, tail da byw a thail gwyrdd. Yn achos ffermwyr da byw mae hyn yn golygu gadael i borfeydd aeddfedu a magu gwreiddiau dyfnach er mwyn tynnu mwy o'r maethynnau sy'n bresennol eisoes yn y pridd. Mi all hefyd gynnwys ychwanegu rhywogaethau glaswelltir eraill fel meillion sy'n bachu'r nitrogen, gadael i'r gwartheg ffrwythloni'r tir yn naturiol ac yna ychwanegu tail wedi'i gompostio. Nid yw'r newid yn hawdd bob amser, gyda phwysau'r cnwd yn is ond, yn enwedig gyda glaswelltiroedd, gwelwyd cynnydd ym mhwysau'r cnydau mewn llawer o'r astudiaethau achos hyn dros amser, yn enwedig os oedd da byw'n cael eu symud o gwmpas yn rheolaidd. Ac er gwaethaf pwysau cnydau is ar y dechrau, mewn llawer o'r astudiaethau achos hyn nid oedd hynny'n golygu llai o elw, gan fod llawer o'r ffermwyr yn gweld eu bod wedi gwneud arbedion ariannol sylweddol drwy beidio gwario cymaint ar wrteithiau a phorthiant allanol. Roedd buddiannau peidio â bod yn ddibynnol ar y mewnbynnau hyn oddi ar y fferm yn eu galluogi i ddal ati i ffermio, a lleihau eu dibyniaeth ar brisiau'r farchnad fyd-eang sy'n aml mor ansefydlog, ac roedd hynny'n golygu mwy o sefydlogrwydd i'w busnes. Maent ar y cyfan, fodd bynnag, yn dal yn ddibynnol iawn ar ddisel i yrru peiriannau ac mae'r gost hon wedi codi'n sylweddol iawn.










## AILGYLCHU GWASTRAFF PLANHIGION AC ANIFEILIAID A GWELLA IECHYD Y PRIDD

Mae'r ffermydd llaeth, llysiau a dofednod i gyd yn cynhyrchu llawer o gompost o dail y buarth, sglodion o wrychoedd, chwyn a phlanhigion eraill. Mae'r systemau compostio hyn yn sicrhau nad yw maethynnau sy'n cael eu cynhyrchu ar y fferm yn cael eu colli ond eu bod yn cael eu hailgylchu a'u defnyddio mewn rhan arall o'r fferm i dyfu bwyd. Mae hyn yn lleihau gwastraff ac yn cynyddu effeithlonrwydd. Mae'r mathau hyn o systemau dolenni caeedig (lle mae'r holl gynhwysion sydd eu hangen i gynhyrchu bwyd yn dod o'r fferm) yn cynnig mwy o sefydlogrwydd i'r fferm ac, os cânt eu cymhwyso'n gywir, mi allant leihau trwytholchi niweidiol o nitrogen a ffosfforws i afonydd. Mae ychwanegu'r deunydd organig hwn yn gwella strwythur y pridd, y gallu i storio dŵr a draenio'r pridd, a gwella amrywiaeth y micro-organebau buddiol ac organebau byw eraill yn y pridd, gan wella iechyd planhigion.



'ROEDD E'N GALED I DROI, I GONFERTO, DDIM BYD YN TYFU YN GLOU. OND WEDI O'R TIR I SETTLO LAWR MAE'R PORFA YN GWNEUD EI BETHAU EI HUN.' FFERM GLANCYNIN



'OS EDRYCHWN NI AR NATUR, MI WELWN NAD YW'N STATIG NAC WEDI COLLI CYSYLLTIAD Â RHANNAU ERAILL O'R CYFANRWYDD. MAE'N GWBL EFFRO AC YN YMATEB GYDOL YR AMSER I'R YSGOGIAD DIWEDDARAF; MAE ANGEN INNI FEL POBL WRANDO AR HYN. RWYF WEDI DYSGU TRIN FY FFERM Â PHARCH, GWERTHFAWROGIAD AC EDMYGEDD MAWR O'R HYN MAE'N EI WNEUD.'
FFERM NANTCLYD

## GWEITHIO Â NATUR

Mae'r rhan fwyaf o'r ffermydd yn defnyddio dulliau sy'n gweithio mewn cytgord â systemau naturiol ac wrth wneud hynny maent yn fuddiol i'r fferm, i'r anifeiliaid ac i fywyd gwyllt. Mae gwartheg yn cael eu symud o gwmpas fel y gallant bori porfeydd gwahanol bob dydd, ac mi allant hefyd bori gwrychoedd a adawyd i dyfu'n dal ac i gynyddu amrywiaeth, gan roi cyfle iddynt i hunan feddyginiaethu a chael cysgod rhag yr haul a'r glaw. Mae hyn yn lleihau straen ac mae'n gyfle i chwilod y dom a phryfed eraill i elwa ar y cynefinoedd sy'n cael eu creu gan dail gwartheg. Mae ieir ar y fferm ddofednod hefyd yn cael eu symud o gwmpas mewn cytiau ieir symudol fel y gallant fwyta glaswellt ffres, sy'n rhan bwysig o'u diet ynghyd â grawn. Mae defaid ar y mynydd yn cael eu pori ar ddefeidiog, sy'n golygu eu bod yn lle cael eu cadw mewn caeau, yn meithrin perthynas naturiol drwy'r cenedlaethau â rhan benodol o'r mynydd ac maent yn dysgu am y planhigion buddiol sy'n rhan o'r dirwedd a lle mae tir pori da i'w ganfod ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Mae'r tyfwyr llysiau hefyd yn defnyddio systemau naturiol fel coedlannu'r gorchudd coed, hau o dan y coed, troi llai ar y tir a chadw cynefinoedd naturiol gerllaw sy'n eu galluogi i gynhyrchu llysiau heb gael effaith andwyol ar natur.









'HANNER CANT O IEIR YR ERW MEWN SIED SYMUDOL YW'R DWYSEDD STOCIO DELFRYDOL I ATAL ACHOSI CRONIAD O LYGREDD NITROGEN YN YR ARDAL GYFAGOS.'
FFERM NANTCLYD

## CADW'R NIFEROEDD CYWIR O'R ANIFEILIAID CYWIR

Nid yw'r bridiau da byw a gafodd eu dethol gan y ffermwyr hyn yn rhai â'r lefelau cynhyrchiant uchaf, maent yn hytrach yn rhai sy'n ffynnu yn y dirwedd lle maent yn cael eu ffermio. Mae'r defaid ar y fferm fynydd yn fridiau brodorol, sydd wedi arfer byw ar y mynydd. Mae'r gwartheg godro'n frîd o'r Almaen sy'n briodol i amodau gorllewin Cymru. Yn achos Fferm Rest, daw'r gwartheg bîff o loi o'r diwydiant llaeth ac mae'r dofednod yn Nantclyd yn adar deuddiben, sy'n cael eu bridio ar gyfer eu cig a'u hwyau. Hefyd mae niferoedd yr anifeiliaid yn cael eu cadw ar y dwysedd stocio optimwm er mwyn gallu eu bwydo oddi ar dir y fferm, heb orfod prynu rhagor o borthiant. Mae hyn yn lleihau diraddiad cynefinoedd naturiol ar ac o gwmpas y ffermydd, lleihau llygredd nitrogen a ffosfforws yn y systemau afonydd lleol ac mae hefyd yn lleihau effaith ffermio Cymru ar wledydd tramor, lle mae llawer o borthiant yn cael ei dyfu mewn ardaloedd sydd dan fygythiad datgoedwigo.

Drwy fod yn ofalus gyda bridiau a dwysedd y stoc, mae'r ffermwyr yn diogelu llesiant yr anifeiliaid ar yr un pryd ag edrych ar ôl yr amgylchedd, yn awr ac i'r dyfodol.

## DIBYNIAETH ISEL AR BORTHIANT WEDI'I GYNHYRCHU'N ALLANOL

Mae'r holl dda byw a dofednod ar y ffermydd hyn yn cael eu bwydo'n bennaf ar naill ai glaswellt, neu laswellt wedi'i gadw (gwair, silwair, gwywair) neu rawn a chodlysiau sy'n cael eu tyfu ar y ffermydd. Nid yw'r ffermydd hyn yn ddibynnol ar gyflenwyr allanol am borthiant ac nid ydynt yn cael eu heffeithio gan ansefydlogrwydd prisiau rhyngwladol, fel y rhyfel yn Wcráin a phrinder cnydau sy'n cael ei achosi gan newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn eu gwneud yn fwy galluog i wrthsefyll siociau rhyngwladol yn y dyfodol. Mae hefyd yn golygu nad ydynt yn mewnforio porthiant o rannau o'r byd lle'r broses o'u gynhyrchu'n cyfrannu at ddinistrio cynefinoedd naturiol ac yn dadleoli pobl frodorol.




'MAE SYSTEM FFERMIO GAEEDIG YN MAGU CYDNERTHEDD AR Y FFERM AC MAE HYNNY'N HELP MAWR INNI.' FFERM ANTCLYD



## CYNYDDU BIOAMRYWIAETH

Dywedodd pob un o'r ffermydd yn yr astudiaethau achos hyn eu bod yn creu ac yn gadael cynefinoedd i natur a bod hynny'n arwain at lefelau uwch o fioamrywiaeth; o amrywiaeth gynyddol o ficrobau a rhwydweithiau ffwngaidd yn y pridd i laswellt llawn perlysiau, dolydd, gwrychoedd cyfoethog, coed, ardaloedd ar gyfer bywyd gwyllt fel prysgwydd, corsydd a phyllau. Mae arferion ffermio fel hau ceirch gwanwyn fel y bydd sofl ar gael yn y caeau yn ystod y gaeaf i fwydo adar, hefyd yn helpu. Mae'r mesurau hyn yn rhoi bwyd a lloches i fywyd gwyllt ac mae'n arwain at niferoedd cynyddol o lawer o rywogaethau fel ehedyddion, llinosiaid, cwtiaid aur, gylfinirod, breision melyn, hebogiaid tramor, tylluanod, llyffantod a brogaod, llygod pengrwn, llyg, grug, blodau dolydd, plu'r gweunydd, mwsoglau, a llawer mwy. Mae gan nifer ohonynt Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) ar eu ffermydd, ac maent yn eu rheoli'n ofalus ar gyfer y cenedlaethau i ddod.





## LLINIARU NEWID YN YR HINSAWDD

Mae gwreiddiau dyfnach glaswellt yn eu galluogi i gadw dŵr a gwrthsefyll sychder yn well ac yn gyflymach. Mae hyn yn golygu bod porfeydd ar ffermydd da byw yn gallu parhau i dyfu'n dda yn ystod cyfnodau hir heb law. Yn ystod sychder 2022 ni chafodd Fferm Glancynin ei heffeithio rhyw lawer a llwyddodd i dorri a storio llawer o laswellt ar ffurf silwair. Mae Tyddyn Teg, fferm lysiau ar gyrion Parc Cenedlaethol Eryri yn dal i gael ei heffeithio gan gyfnodau hir heb law, er nad yw mewn ardal sy'n dueddol o brofi sychder. Drwy help grant garddwriaeth gan Lywodraeth Cymru, maent wedi buddsoddi mewn system ddyfrhau well, sy'n golygu y byddant yn gallu ymdopi'n well yn ystod cyfnodau hir heb law.

Mae'r holl ffermydd yn dangos eu bod yn atafaelu carbon ar eu ffermydd drwy blannu coed a gadael i wrychoedd a glaswellt dyfu, compostio a rhoi deunydd organig yn ôl ar ac i mewn yn y pridd. Mae gadael i wrychoedd dyfu'n hwy'n annog amrywiaeth enfawr o goed a phlanhigion sy'n rhoi bwyd a lloches i fywyd gwyllt yn ogystal â gwartheg.

Mae'r mawndiroedd sy'n cael eu rheoli gan Wild Shepherd yn enghreifftiau hynod o sut y gall ffermwyr ffermio a chreu cynefin sy'n dal carbon am gyfnodau hir.

## DARPARU BWYD MAETHLON, O SAFON UCHEL WEDI'I BROSESU CYN LLEIED Â PHOSIBL I GALON CYMUNEDAU

Mae'r cig, y cynnyrch llaeth, y ffrwythau, llysiau, grawn a'r wyau sy'n cael eu cynhyrchu gan y ffermydd hyn o'r safon uchaf ac maent wedi'u prosesu cyn lleied â phosibl, gan gynnig bwydydd cyflawn. Mae'r ffermydd i gyd heblaw am y fferm lysiau gydweithredol (sy'n gwerthu'n lleol yng Ngogledd Cymru'n unig) yn cynhyrchu bwyd amaethecolegol sy'n cael ei werthu ledled y DU. Mae cig oen yn cael ei ddanfon i bob rhan o'r DU, ac mae hynny'n wir hefyd am gaws, a grawn ar ffurf ceirch a gwenith. Ond mae pob un o'r ffermydd hyn yn gwneud ymdrech i ddatblygu eu gallu i werthu eu bwyd yn lleol ac i gysylltu â'u cymunedau, boed hynny ar ffurf siop fferm lle nad oes siop ar gael erbyn hyn, neu gynnig mannau casglu ar y fferm, presenoldeb mewn marchnadoedd fferm neu ddanfon cynnyrch ffres, cig ac wyau'n lleol. Mae rhai ohonynt yn treialu hen fathau o wenith Cymreig sy'n cael ei falu a'i werthu i wneud bara lleol. Drwy wneud hyn maent yn creu cysylltiadau ac yn cefnogi eu cymunedau lleol ac yn helpu i ailgysylltu pobl â ffermio a tharddiad bwyd da.

## HELPU CYMUNEDAU INCWM ISEL A CHREU CYFLEOEDD ADDYSGOL

Mae Fferm Slade hefyd yn helpu cymunedau incwm isel drwy gynnig bagiau llysiau am ddim, gyda'u haelodau'n talu amdanynt drwy gyfrannu arian at yr achos, ac sydd wedyn yn cael eu dosbarthu drwy elusen leol ym Mhen-y-bont. Mae'r elusen wedyn yn dysgu pobl sut i goginio'r llysiau. Mae Fferm Slade a Thyddyn Teg yn croesawu ymweliadau gan ysgolion bob blwyddyn. Mae Fferm Slade hefyd wedi agor ystafell esgidiau a dillad dal dŵr ac mae plant ysgol gynradd o'r Barri yn dod i ymweld â hwy chwe gwaith y flwyddyn i ddeall ffermio drwy'r tymhorau. Mae Tyddyn Teg yn cynnal dyddiau gwirfoddoli rheolaidd, dyddiau gwirfoddoli a digwyddiadau fel ciniawau cymunedol, ac mae eu fferm yn croesawu unrhyw un a hoffai alw heibio i ddysgu mwy am dyfu llysiau. Mae mentrau cymunedol fel y rhain yn dangos agweddau cymdeithasol dull ffermio amaethecolegol a sut y gallant helpu i ddadwneud y datgysylltiad rhwng pobl a tharddiad eu bwyd.



'MAE GENNYM STORI I'W HADRODD - SEF BOD MODD CYNHYRCHU BWYD MAETHLON, O SAFON UCHEL SY'N FUDDIOL I AMGYLCHEDD CYMRU AC SY'N CYSYLLTU POBL Â THARDDIAD EU BWYD'
FFERM SLADE



'YN Y BORE PAN FYDDAF YN MYND ALLAN MI FYDDAF YN DOD YN ÔL YN LLAWER TAWELACH FY MEDDWL. MAE'R COED A CHAEL FY AMGYLCHYNU GAN GOED YN FY NHAWELU I A'R GWARTHEG.' FFERM GLANCYNIN

## FFORDD DDA O FYW GYDA BUDDION POSITIF I IECHYD MEDDWL

Mae nifer o'r ffermwyr yn yr astudiaeth achos wedi sôn am effeithiau positif ffermio amaethecolegol ar iechyd meddwl – gwella llesiant a ffordd o fyw. Nid yn unig y mae hyn yn dda i ffermwyr ond mae'n dda hefyd i'r bobl maent yn eu cyflogi a soniodd nifer o'r bobl sy'n gweithio ar y ffermydd am fuddion ffermio amaethecolegol i'w hiechyd meddwl. Mae hyn yn helpu i ddenu a chadw newydd-ddyfodiaid.



'RYDYM YN DATBLYGU BUSNES FFERMIO Y GALLWN YMFALCHÏO YNDDO, DATBLYGU'R AMGYLCHEDD, POBL, Y GYMUNED A CHAEL HWYL WRTH EI WNEUD.' FFERM REST



## CREU SWYDDI AC YMDEIMLAD O FALCHDER OND NID YW GWERTHU'N LLEOL YN DDIGON

Mae'r chwe fferm dan sylw'n cyflogi tua 30 o bobl rhyngddynt gan gynnwys y ffermwyr eu hunain. Er bod gan ffermio amaethecolegol fuddiannau o ran cydnerthedd rhag costau cynyddol mewnbynnau, mae'n dal yn anodd gwneud bywoliaeth drwy werthu bwyd amaethecoleg. Er mwyn gwneud bywoliaeth drwy werthu bwyd, a gwarchod yr amgylchedd ar yr un pryd, rhaid iddo gael ei werthu am bremiwm a dim i ryw raddau y gall y farchnad leol gynnal hyn ar hyn o bryd. Mae Fferm Rest, sy'n gwerthu eu cig i gigydd moesegol ac i Honest Burgers yn Llundain yn gwneud hynny am na allant gael y prisiau sydd eu hangen arnynt i dalu eu costau wrth werthu'n lleol yn unig. Ni all Glangynin wneud bywoliaeth ddigonol drwy werthu cynnyrch llaeth yn lleol ond wrth werthu llaeth i Gaws Cenarth i gael ei wneud yn gaws artisan maent yn gallu gwneud bywoliaeth.

Mae 11 o gynhyrchwyr llysiau, ynghyd â sawl hyfforddai yn cael eu cyflogi i werthu llysiau wedi'u tyfu yn amaethecolegol yn Nhyddyn Teg. Mae hon yn dipyn o gamp, ond ar hyn o bryd ni allant fforddio talu mwy nag £8 yr awr iddynt eu hunain ac mae'r rhan fwyaf o weithwyr yn gallu ymdopi â hyn am eu bod yn byw ar y safle ac am fod eu gorbenion yn isel.

Mae darparu cymaint o nwyddau cyhoeddus ar yr un pryd yn golygu cost i'r ffermwr o ran gwneud bywoliaeth dda. Nid yw'r ffermwyr hyn, fel y rhan fwyaf o rai eraill, yn gallu talu'n agos at yr isafswm cyflog iddynt eu hunain ac maent yn ennill cryn dipyn yn llai na hyn. Maent yn wynebu caledi ariannol ac ansicrwydd, nid am nad ydynt yn rhedeg eu busnes yn dda, ond am eu bod yn gwneud cymaint am gyn lleied.




**'NI FYDDAI'N BOSIBL I NI WNEUD ELW DRWY WERTHU EIN LLAETH A'N CYNNYRCH LLAETH YN LLEOL OND GAN FOD EIN LLAETH ORGANIG YN MYND I GAEL EI WNEUD YN GAWS ARTISAN, MAE MODD INNI WNEUD BYWOLIAETH'**

FFERM GLANCYNIN

**'GWARCHEIDWAD Y TIR YN UNIG YDW I. I MI MAE'N GOLYGU GADAEL RHYWBETH MEWN GWELL CYFLWR NAG OEDD PAN GAWSOM NI O ... RHYWBETH A FYDD YN BWYDO CENEDLAETHAU'R DYFODOL ...'** FFERM NANTCLYD



## YMRODDEDIG, DYFEISGAR, ANNIBYNNOL AC YSBRYDOLEDIG

Mae'r ffermwyr hyn yn dangos dycnwch ac ymroddiad i'r achos ac maent wedi mabwysiadu dulliau ffermio amaethecolegol am eu bod yn credu mai dyna'r peth gorau i'w wneud. Mae 'cymryd rheolaeth' fel hyn yn rhoi ymdeimlad o falchder mawr iddynt ac maent yn mynegi diolchgarwch am eu bod yn gallu gwneud yr hyn maent eisiau ei wneud. Ond nid yw ffermio fel hyn yn hawdd a rhaid iddo fod yn ysbrydoledig, ac nid yw'n rhywbeth y gellid ei orfodi ar neb.

**'RHAID I CHI FOD WRTH WRAIDD Y NEWID.'** WILD SHEPHERD

**I gloi**, mae mwy a mwy o ffermwyr yn gweld manteision dulliau amaethecolegol. Byddai mabwysiadu'r dulliau hyn yn y system fwyd, o'r fferm i'r fforc, yn dda i natur ac i'r hinsawdd, a byddai ar yr un pryd yn cynhyrchu bwyd lleol, ffres ac iach. Ond mae'n anodd iawn gwneud bywoliaeth drwy gynhyrchu bwyd o safon uchel i farchnadoedd lleol ar yr un pryd â gwella'r amgylchedd. Os yw Llywodraeth Cymru eisiau bwyd iach a maethlon sy'n gwella'r amgylchedd yng nghalon cymunedau ledled Cymru, mae'n bwysig bod ffermwyr yn cael eu helpu i wneud hyn. Dyma rai argymhellion ar sut y gellid gwneud hynny.

# 4. PUM ARGYMHELLIAD POLISI:

## 1. Gwobrwyo arferion amgylcheddol a chanlyniadau'n ariannol yn awr

Nid yw'r rhan fwyaf o'r ffermwyr amaethecolegol yn yr astudiaethau achos hyn yn dibynnu ar gymorthdaliadau am eu hincwm ac nid ydynt yn dymuno gwneud hynny; maent yn hytrach yn ceisio rhedeg busnesau proffidiol. Fodd bynnag, mae hi'n anodd gwneud hyn drwy werthu i farchnadoedd lleol ac mae rhai ohonynt yn dechrau meddwl am ba hyd y gallant ddal ati. Mae rhai wedi llwyddo i gael grantiau ar gyfer prosiectau amgylcheddol a chynefinoedd yn y gorffennol ond mae angen mwy o gymorth. Mae'r rhan fwyaf yn cytuno y byddai cael eu gwobrwyo am wasanaethau amgylcheddol yn help mawr.



'OS NA ALLWN WNEUD BYWOLIAETH YNA BYDD EIN HAMGYLCHEDD YN EDWINO. MAE FFERMIO'N FRAINT. RYDYM YN BYW MEWN LLE PRYDFERTH, AC RYDYM YN RHEDEG EIN BUSNES EIN HUN. MI ALLWN ARLOESI A RHOI CYNNIG AR BETHAU GYDA CHYMUNEDAU AC YSGOLION LLEOL. OND MAE ANGEN I'N CYMUNEDAU OROESI A CHAEL ASEDAU AC ONI BAI BOD GANDDYNT FFERMYDD A CHYFLEUSTERAU SY'N GWEITHIO MI FYDD Y CYMUNEDAU HYNNY'N DIRYWIO. RYDYM EISIAU FFYNNU A THRWY WNEUD HYNNY MI FYDD Y GYMUNED YN FFYNNU HEFYD.' FFERM SLADE

Mae'r astudiaethau achos wedi amlygu nifer o enghreifftiau o wasanaethau amgylcheddol allweddol y dylai ffermwyr gael eu gwobrwyo amdanynt yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae rhestr anghyflawn o'r gwasanaethau amgylcheddol hyn yn cynnwys:

**A Arferion bioamrywiaeth, natur a newid yn yr hinsawdd**
Gallai hyn gynnwys gwobrwyo ariannol am ganiatáu glaswellt i aeddfedu ac sy'n gyfoethog o berlysiau, compostio ac ychwanegu deunydd organig ar ac yn y pridd, cynyddu amrywiaeth microbau pridd a rhwydweithiau ffwngaidd, sefydlu dolydd, gadael i wrychoedd ffynnu, plannu coed a neilltuo mannau ar gyfer bywyd gwyllt fel prysgwydd, corsydd a phyllau, plannu ceirch gwanwyn fel y bydd sofl yn y caeau dros y gaeaf i fwydo'r adar, cnydau gorchudd, hau o dan goed a llai neu ddim troi ar y pridd.



**B Ffermio mewn ffordd nad yw'n dibynnu ar wrteithiau artiffisial**
Dylai ffermwyr gael eu gwobrwyo am fesurau sy'n rheoli maetholion yn effeithlon defnyddio a sicrhau nad yw nitrogen a ffosfforws yn cael effaith negyddol ansawdd aer a dŵr. Mae angen i fesurau lleihau effeithiol ganolbwyntio ar, er enghraifft, deiet da byw, iechyd a bridio; rheoli gwastraff da byw; cynlluniau rheoli maetholion a lleihau colledion nitrogen a ffosfforws o dir. Mae mesurau ar y ffarm i leihau allyriadau nitrogen yn cynnwys, er enghraifft, defnyddio codlysiau i fachu nitrogen, symud gwartheg i leihau gorbori a hybu tyfiant glaswellt, optimeiddio lefelau stocio a chael mwy o lystyfiant parhaol heblaw cnydau yn y dirwedd i ategu diet da byw ac i greu cynefinoedd. Drwy wneud hyn gellir helpu ffermwyr i beidio â dibynnu ar wrteithiau ac i fod yn fwy cydnerth.

**C Ffermio mewn ffordd nad yw'n dibynnu ar borthiant da byw wedi'i fewnforio sy'n gysylltiedig â dinistrio cynefinoedd**
Yn hytrach bod yn ddibynnol ar borthiant wedi'i fewnforio fel soi, a all fod yn gysylltiedig â dinistrio cynefinoedd dramor, dylai ffermwyr gael eu gwobrwyo am gynhyrchu eu porthiant eu hunain fel glaswellt a gadwyd (gwair, silwair, gwywair) neu rawn a chodlysiau ar y fferm, cyhyd â bod y porthiant hwnnw'n cael effeithiau positif ar yr hinsawdd a natur. Dylai ffermwyr flaenoriaethu ffynonellau porthiant anifeiliaid nad ydynt yn mynd i gael eu bwyta'n uniongyrchol gan bobl, fel glaswellt, gwastraff bwyd, neu sgil-gynhyrchion amaethyddol neu'r diwydiant bwyd, yn lle grawnfwydydd neu soia. Bydd hyn yn helpu i gynyddu cydnerthedd yn erbyn sioclau allanol a lliniaru ansefydlogrwydd a achosir gan chwyddiant costau sydd y tu hwnt i reolaeth y fferm.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y prosesau i dalu am wasanaethau amgylcheddol yn deg a hawdd i'w defnyddio a'u bod yn hyblyg. Gymaint o weithiau yn y gorffennol, mae ffurflenni a phrosesau wedi bod mor gymhleth nes eu bod wedi digalonni pobl a'u bod yn dewis peidio gwneud cais. Mae angen symleiddio'r rhain os yw pobl am fanteisio arnynt.

Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ffermwyr hyn broblem â rheol 10% o orchudd coed fel gofyniad i ran gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan fod gan y rhan fwyaf ohonynt gymaint â hynny neu fwy o orchudd coed ar eu ffermydd yn barod. Yr hyn a oedd yn broblem iddynt oedd agwedd anhyblyg nad oedd yn ystyried y gwahaniaeth rhwng ffermydd a oedd yn rhy ragnodol.




'WNES I DDIM HAWLIO'R UN TALIAD SENGL GAN EI FOD MOR GYMHLETH YN WEINYDDOL AM NAD OEDD YR HYN ROEDDWN I'N EI WNEUD YN TICIO'R BLYCHAU.'

FFERM NANTCLYD

## 2. Cefnogi cadwynau cyflenwi o'r Fferm i'r Fforc

Mae cytundebau masnach Llywodraeth y DU â gwledydd eraill wedi golygu bod bwydydd yn cael eu gwerthu yn y DU am brisiau is na bwydydd y DU, fel yn achos cig oen Seland Newydd. Mae hyn wedi gwneud i ffermwyr deimlo nad yw llywodraethau'n gweithio i gefnogi system ffermio'r DU. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i anfon neges gref i ffermwyr bod eu cynnyrch yn cael ei werthfawrogi drwy brynu cynnyrch amaethecolegol yn y sector cyhoeddus, er enghraifft mewn ysgolion cynradd.

Er bod gwerthiant bwyd i'r sector cyhoeddus yn cyfrif am gyfran fach yn unig o gyfanswm y gwerthiant bwyd, er hynny mae'n gyfle i arian y llywodraeth i ddangos undod a helpu ffermwyr drwy gynnig marchnadoedd ychwanegol iddynt a chyfle i dynnu sylw at gynnyrch ffermydd Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygiad dulliau sy'n galluogi ffermwyr Cymru i werthu eu cynnyrch i'r sector cyhoeddus, fel y rhai a dreialwyd yn y peilot Courgette a gomisiynwyd gan Synnwyr Bwyd Cymru drwy sefydlu Cynllun Buddsoddi mewn Cadwyn Gyflenwi Gynaliadwy (SCIS). Byddai hyn yn galluogi'r sector cyhoeddus i gael bwyd gan gynhyrchwyr amaethecolegol drwy dalu'r gwahaniaeth yn y pris rhwng y bwyd rhataf y gellir ei brynu a bwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n amaethecolegol gan ffermwyr Cymreig lleol.




## 3. Dadwneud y datgysylltiad: gwobrwyo ffermwyr yn ariannol am gysylltu ag ysgolion a theuluoedd incwm isel

Mae dwy allan o'r chwe fferm yn yr astudiaeth achos yn croesawu ymweliadau rheolaidd â'u fferm gan blant ysgol ac mae'r rhain wedi helpu drwy hybu dealltwriaeth plant o oedran cynnar sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu ac effaith hynny ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae'r ymweliadau hyn yn cymryd llawer o amser ac adnoddau, rhywbeth nad oes gan y ffermydd hyn lawer ohono i'w sbario, ac os yw trefniadau fel hyn am gael eu hannog yn y dyfodol, dylai arferion da gael eu rhannu a dylai ymweliadau gael eu gwobrwyo, er enghraifft drwy gael arian o gronfa gyllido sydd wedi'i neilltuo i ymweliadau â ffermydd.

[1] https://www.foodsensewales.org.uk/app/uploads/2023/01/CourgetteReport_Eng.pdf




Mae cyfle hefyd i adeiladu ar y prosiect TGRAINS[2] ac mae gwaith Fferm Slade i gysylltu teuluoedd incwm isel â chynlluniau amaethyddiaeth amaethecolegol a chymunedol. Gellid gwneud hyn drwy gynnig grantiau bychain i ffermwyr neu bartneriaid elusennol, hyd at £5000, a fyddai ar gael yn gyflym i'w helpu i sefydlu cynlluniau arloesi cymdeithasol i helpu aelwydydd heb sicrwydd bwyd i gael cynnyrch amaethecolegol.

## 4. Parhau i ddatblygu cymorth Garddwriaethol a pharhau gyda Chyngor Ffermio Amaethecolegol


Mae cynhyrchu ffrwythau a llysiau'n wahanol i fathau eraill o ffermio am ei fod gan amlaf yn digwydd ar leiniau llai o dir. Mae hyn yn golygu nad yw'n elwa ar gymorthdaliadau sy'n cael eu dyrannu'n ôl maint arwynebedd y tir.

Mae ffermydd ffrwythau a llysiau amaethecolegol yn cynnwys amrywiaeth enfawr o ran cnydau ac maent yn darparu llysiau iach y mae cymaint o alw amdanynt i'w cymunedau cyfagos. Ac eto mae'n dal yn anodd dros ben i wneud i hyn dalu ac i gael busnes ffyniannus. Dyna pam y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gael cynlluniau garddwriaethol arbennig sy'n gwobrwyo arferion ffermio amaethecolegol.



'ER BOD FFERM FEL EIN UN NI'N CYNHYRCHU GWERTH £80,000 O FWYD (LLYSIAU'N BENODOL, A BYDDAI'R RHAN FWYAF YN CYTUNO Y DYLEM FWYTA MWY OHONYNT), BYDDAI UNRHYW GYMORTHDALIADAU Y GALLEM EU CAEL YN DDIWERTH BRON GAN EIN BOD YN GWNEUD HYN I GYD AR TUA 2.5 HECTAR O DIR SY'N CAEL EI DRIN.' TYDDYN TEG

[2] https://tgrains.com/accessible-veg-pilot-project/




**Gellid rhannu cymorth garddwriaethol i'r chwe maes canlynol:**

**1. Datblygu Cynllun Datblygu Garddwriaeth**

Mae Cynllun Datblygu Garddwriaeth Llywodraeth Cymru sy'n rhoi grantiau ar gyfer seilwaith i'w groesawu ond mae angen ei wella os yw am fod yn fuddiol i gynhyrchwyr sydd heb lawer o gyfalaf wrth gefn. Mae tri phrif beth y gellid eu gwella

1. Symleiddio'r broses ymgeisio feichus a chymhleth
2. Cynyddu canran y gost a gaiff ei chynnwys gan y grant. Dim ond 40% yw hyn ar hyn o bryd ac yn aml nid oes gan gynhyrchwyr llysiau'r cyfalaf i dalu 60% o gost darn mawr o seilwaith.
3. Diddymu'r gofyniad i dalu ymlaen llaw am seilwaith. Gellid gwneud hyn naill ai drwy wella'r system ymgeisio gyfredol neu gyflogi trydydd parti i reoli'r broses fel yr awgrymwyd gan Synnwyr Bwyd Cymru yn y peilot grantiau garddwriaeth bach gwreiddiol.[3]

**2. Cyflwyno Cynllun Buddsoddi mewn Cadwyn Gyflenwi Gynaliadwy (SCIS)**

Dangosodd y Peilot Courgette y byddai system syml sy'n galluogi cynhyrchwyr llysiau amaethecolegol i gyflenwi ysgolion yng Nghymru drwy gyfanwerthwyr yn cynnig marchnadoedd dibynadwy i'r busnesau. Mae'r drefn hon yn gofyn am fuddsoddiad yn yr arian ychwanegol sydd angen ar ysgolion i brynu llysiau amaethecolegol a fydd yn cael eu cynnwys gan y Cynllun Buddsoddi mewn Cadwyn Gyflenwi Gynaliadwy (SCIS). Mae ail gam y peilot yn weithredol ar hyn o bryd a dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y canlyniadau wrth ystyried sut i'w gyflwyno yn y dyfodol.

[3] https://www.foodsensewales.org.uk/app/uploads/2022/03/FSW-Business-Support-Grants-Pilot-21-Final.pdf



**3. Tai a datblygu a ganiateir i fentrau garddwriaethol**

Caniateir i ddaliadau amaethyddol mwy na phum hectar godi rhai adeiladau fferm i ddibenion ffermio (mae ganddynt hawliau datblygu a ganiateir), ond nid oes gan rai llai na'r maint hwn hawliau o'r fath. Mae newydd-ddyfodiaid ifanc i'r sector garddwriaeth yn debygol o fod ar lai o dir na hyn, felly byddant yn wynebu ansicrwydd o ran cael caniatâd i adeiladu'r seilwaith sy'n hanfodol ar gyfer fferm fach hyfyw. Nid yw'r newydd-ddyfodiaid hyn ychwaith yn debygol o allu fforddio na hyd yn oed rhentu tŷ mewn ardal wledig gyda'r incwm maent yn debygol o'i gael drwy fusnes llysiau ifanc. Rhoddir sylw hyn yn rhannol yn y polisi Datblygiad Un Blaned (OPD) yng Nghymru, ond mae baich cychwynnol a pharhaus mawr gwneud cais cynllunio OPD yn ddigon i wneud i bobl a allai fel arall ddechrau busnes fferm newid eu meddwl. Dyna pam y mae mor bwysig bod y sefyllfa dai a datblygu a ganiateir yn cael sylw os yw busnesau garddwriaethol am gael eu hannog. Dylai mentrau garddwriaethol, ar adeg eu sefydlu, gael datblygu a ganiateir ar gyfer twnelau polythen, sied bacio a chydsyniad dros dro ar gyfer carafán/caban pren neu rywbeth tebyg.

**4. Parhad gwasanaethau Tyfu Cymru drwy Gyswllt Ffermio**

Mae Tyfu Cymru wedi cynnig cymorth hyfforddi rhagorol i'r sector garddwriaeth masnachol yng Nghymru a dylai ei waith barhau drwy Gyswllt Ffermio er mwyn i'r sector barhau i gael cefnogaeth i dyfu.

**5. Prentisiaethau Ffermio a Garddwriaeth Cynaliadwy**

Gan adeiladu ar ganfyddiadau Rhaglen Hyfforddi Ffermwyr Dyfodol Cymru a gyflwynir gan Lantra a Gweithwyr y Tir, mae angen datblygu cynllun prentisiaeth 2 flynedd ar gyfer garddwriaeth a ffermio amaethecolegol. Byddai hyn yn sicrhau bod newydd-ddyfodiaid yn cael eu hannog a'u helpu i ffermio'n amaethecolegol gyda hyfforddiant digonol fel y byddant yn barod i redeg eu mentrau eu hunain neu i gael eu cyflogi fel gweithwyr hyfedr. Buddiannau cyfuno garddwriaeth a ffermio cynaliadwy yw y byddai'r prentisiaid yn cael cyfleoedd hyfforddi drwy'r flwyddyn yn hytrach nag yn dymhorol, yn ystod misoedd yr haf a'r hydref yn bennaf, ar gyfer garddwriaeth yn unig.

**6. Cynllun nwyddau cyhoeddus garddwriaethol penodol**

Cynnwys cynllun nwyddau cyhoeddus garddwriaethol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dylai hyn gynnwys taliadau am fuddion amgylcheddol a chymdeithasol a gyflawnir drwy ddefnyddio dulliau tyfu a modelau busnes penodol. Dylai'r buddion hyn gyd-fynd â'r rhai mae Llywodraeth Cymru'n ceisio eu cyflawni drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ond yn bwysig mi fyddai'r taliadau fesul uned yn cyfrif am gost uwch ac incwm yr hectar garddwriaeth, ac yn amrywio'n ôl yr hyn sy'n penderfynu ar gost cyflawni a lefel y buddion. Er enghraifft, byddai arferion fel tomwellt i reoli chwyn, cadw deunydd organig ac osgoi plaladdwyr, yn cael tâl yn ôl arwynebedd, cyfranogiad mewn cynlluniau ardystio yn cael eu gwobrwyo â thaliad am weinyddu'n seiliedig ar amcangyfrif o'r oriau gwaith ychwanegol a fyddai eu hangen a byddai CSA, a fyddai'n dod â buddion cymdeithasol, yn cael eu gwobrwyo'n ôl aelodau o'r tîm. Mae Growing the Goods yn enghraifft o gynnig tebyg sy'n cael ei dreialu yn Lloegr ar gyfer Profion a Threialon DEFRA.

[4] https://landworkersalliance.org.uk/traineeship/

[5] https://hollyfphelps.wixsite.com/growingthegoods/copy-of-wm3



## 5. Creu cynllun Prentisiaeth Ffermio a Garddwriaeth Cynaliadwy

Mae llawer o wybodaeth ar gael i ffermwyr am ddulliau ffermio amaethecolegol a llawer o gyfleoedd iddynt i ddysgu ar-lein a thrwy fideos. Mae Cyswllt Ffermio Garddwriaeth (Tyfu Cymru gynt) yn cynnig cyfleoedd gwych i ddysgu a dylent barhau i gael eu hariannu i ddarparu cyngor a chymorth i ffermwyr i'w helpu i droi at arferion amaethecolegol. Gellid gwneud mwy drwy ddysgu arferion ffermio cynaliadwy mewn colegau amaethyddol a gellid neilltuo mwy o arian ar gyfer cymorth gan gymheiriaid yn hytrach na chymorth gan ymgynghorwyr. O gofio graddfa'r argyfyngau hinsawdd a natur sy'n ein hwynebu, mae angen i lawer mwy o ffermwyr gael eu helpu i droi at ddulliau ffermio amaethecolegol cyn gynted â phosibl, a dylai lefel yr help sydd ar gael adlewyrchu'r brys hwn.

Byddai cynllun prentisiaethau ffermio a garddwriaeth cynaliadwy dwy flynedd yn hwb mawr i helpu newydd-ddyfodiaid i'r sectorau ffermio a garddwriaeth (gweler y blwch cymorth garddwriaeth).

Yn ystod y blynyddoedd cyntaf o drosglwyddo i system amaethecolegol, mae'r cynnyrch yn is o bosibl, ac mae yna gostau'n gysylltiedig â'r trawsnewid (fel costau hyfforddiant, seilwaith, bridiau newydd). Pan fydd y system fferm yn addasu i ffordd newydd o ffermio, mae angen llenwi'r bwlch hwnnw â chymorth ariannol, er mwyn i ffermwyr deimlo'n gyfforddus i gymryd y risg.



# 5. CASGLIAD

Mae ffermio amaethecolegol yn ei holl ffurfiau'n gyfle gwych i gynhyrchu bwyd o safon uchel yn ein cymunedau. Mi all weithio gyda natur, yn hytrach nag yn ei erbyn, i adfer bioamrywiaeth a helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, i sicrhau bwyd iach a system ffermio i genedlaethau'r dyfodol.

Er bod pob un yn wahanol, mae'r chwe astudiaeth achos yn cael eu huno gan eu cenhadaeth i adael gwaddol positif i genedlaethau'r dyfodol ac i ffermio mewn ffordd sy'n:


- **Annog ffermwyr y dyfodol ac sy'n golygu ffordd dda o fyw**
- **Gweithio heb lawer o wrteithiau a phlaladdwyr cemegol**
- **Ailgylchu gwastraff planhigion ac anifeiliaid a gwella iechyd y pridd**
- **Gweithio gyda natur; cadw'r bridiau cywir yn y niferoedd cywir**
- **Nad yw'n ddibynnol ar borthiant sy'n cael ei gynhyrchu'n allanol**
- **Cynyddu bioamrywiaeth**
- **Lliniaru newid yn yr hinsawdd**
- **Darparu bwyd maethlon o safon uchel, gyda chyn lleied â phosibl o brosesu i gymunedau ac sy'n helpu cymunedau incwm isel**
- **Creu cyfleoedd addysgol a swyddi.**

Fel ffermwyr eraill, mae ffermwyr amaethecolegol yn ymfalchïo yn yr hyn maent yn ei wneud, ond nid yw llawer yn ennill arian sy'n dod yn agos at yr isafswm cyflog. Maent yn profi caledi ariannol am nad yw'r system bresennol yn gweithio i annog yr arferion ffermio cywir.

Os yw Llywodraeth Cymru am gael bwyd iach a maethlon sy'n gwella'r amgylchedd yng nghalon cymunedau ledled Cymru, mae'n hanfodol bod ffermwyr yn cael eu helpu i wneud hyn. Dylai'r help hwn wneud pum peth: gwobrwyo arferion a chanlyniadau amgylcheddol yn ariannol cyn iddi fynd yn rhy hwyr; dadwneud y datgysylltiad: gwobrwyo ffermwyr yn ariannol am gysylltu ag ysgolion a theuluoedd incwm isel, helpu'r gadwyn gyflenwi o'r fferm i'r fforc, parhau i ddatblygu cymorth garddwriaethol a pharhau i ddarparu cyngor ffermio amaethecolegol yn ogystal â chreu cynllun prentisiaethau ffermio a garddwriaeth cynaliadwy newydd.

## 6. ASTUDIAETHAU ACHOS

1 FFERM REST
2 FFERM NANTCLYD
3 FFERM GLANCYNIN
4 FFERM SLADE
5 WILD SHEPHERD
6 TYDDYN TEG



# STRAEON GWLAD EIN DYFODOL

## ASTUDIAETH ACHOS 1

FFERM REST

# CRYNODEB

Mewn partneriaeth a'i frawd Iwan, mae Aled Evans yn ffermio yn Ne Orllewin Cymru. Maent yn rheolwyr tir glas arloesol sy'n ffermio'n adfywiol ar 500 erw yn cynhyrchu cig eidion o loi o ansawdd o'r diwydiant llaeth. Mae'r cig yn cael ei gyflenwi'n uniongyrchol i fyrgyrs Honest a dau gigydd moesegol yn Llundain ac i'r gymuned leol trwy gynllun bocs cig (ynghyd â chig oen sy'n rhan o gadwyn gyflenwi gonfensiynol).

Enillodd Aled ac Iwan wobr ffermwr cig eidion y flwyddyn yng ngwobrau Farmers Weekly yn 2021 am eu ffermio cig eidion arloesol, proffidiol sy'n cydweithio â natur. Mae Aled yn byw ac yn gweithio ar y fferm gyda'i wraig a'i deulu ifanc tra bo Iwan yn byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio yn Llundain.

## MAE TAIR COLOFN GANOLOG ALLWEDDOL I'W DULL HWY O FFERMIO SEF ETIFEDDIAETH, FFORDD O FYW AC ELW.





'Rydym yn datblygu busnes ffermio yr ydym yn wirioneddol falch ohono, yn datblygu'r amgylchedd, pobl, cymuned a mwynhau ar yr un pryd.'

O'r dechrau, roedd y brodyr eisiau ei rheoli mewn modd a fyddai'n lliniaru anweddolrwydd y byd ffermio sy'n anffodus o gyffredin. Roeddent am leihau mewnbynnu, optimeiddio cyfraddau stocio yn hytrach na manteisio. Roeddent am ddatblygu system ffermio sefydlog y gellid ei hailadrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn hytrach na symud o ffyniant i fethiant. Penderfynon nhw seilio eu dull o ffermio ar dri philer:

**ETIFEDDIAETH**
**GOFALU AM YR AMGYLCHEDD A'R GYMUNED**

**FFORDD O FYW**
**DIM GWEITHIO MWY NA 50 AWR YR WYTHNOS AR GYFARTALEDD, CAEL POB YN AIL BENWYTHNOS I FFWRDD A GWYLIAU**

**ELW**
**GWNEUD BYWOLIAETH DDA YN TYFU BWYD O ANSAWDD**

Mae eu harferion ffermio wedi gwella twf glaswellt yn sylweddol, iechyd y pridd, ymwrthedd i sychder, bioamrywiaeth ar y fferm a lleihau ôl troed carbon.









# HINSAWDD

Gwnaeth sychder 2018 iddynt feddwl yn fwy gofalus am reoli glaswelltir a systemau gwreiddiau a phridd. Sylweddolon nhw fod gan rai o'u gweiriau wreiddiau bas iawn ac nad oedd hyn yn fuddiol o ran ymwrthedd i sychder, felly aethant ati i weithio ar ffyrdd o reoli glaswelltir.

Yn gynnar ar y daith, fe aethant ar gwrs dosbarth meistr mewn pori manwl gywir ac yna buddsoddi'n eithaf helaeth mewn seilwaith. Fe wnaeth GPS fapio'r fferm gyfan a'i defnyddio i gynllunio rheolaeth pori gyda chelloedd bach o 0.5 hectar, gyda ffensys trydan lled-barhaol a hefyd ffyrdd.

Mae pori bellach wedi'i gynllunio fis ymlaen llaw sy'n golygu y gall unrhyw un symud y gwartheg a'r ffensys yn ôl y cynllun, gan gael gwared ar straen yn fawr. Mae gwartheg yn cael eu symud pob dydd ac mae glaswellt yn cael cyfnod gorffwys hir o 30-100 diwrnod o adferiad.

**'MAE'N DYNWARED SYSTEMAU PORI MWY NATURIOL FEL BUAIL YN Y GWYLLT LLE MAE'R GWARTHEG YN SYMUD YMLAEN PAN FYDDANT WEDI GORFFEN PORI DARN O DIR.'**









## ‘Rydym yn cael 50 sgwrs y dydd am laswellt... mae’n obsesiwn gennym’.

Pob dydd Llun, maen nhw’n mesur y gwair, hyd a chynnwys sych, ac yn cynllunio yn unol â hynny. ‘Mae hyn yn golygu y gallwn gael tymor pori estynedig gyda gwartheg yn cael eu cadw dan do am gyfnod byrrach o 90-100 diwrnod gan wneud y gorau o’r glaswellt a dyfir ar y safle.’ Yn 2019, roedd ganddynt 15 tunnell o laswellt deunydd sych ac yn defnyddio tua tua 70%. Erbyn 2021 oherwydd gwell rheolaeth, roedd y defnydd wedi cynyddu i dros 85%. Y nod yw cael gwartheg i ddefnyddio cymaint o’r glaswellt â phosibl yn y gwanwyn a’r haf a thorri i lawr ar ddwysfwydydd (yn cynnwys grawn porthiant fel indrawn, ffa soia, ceirch a haidd).

Mae gwreiddiau ar draws y fferm bellach yn llawer dyfnach, gan fanteisio ar lawer mwy o faetholion. Maent wedi treialu plannu uniongyrchol ac mae ganddynt gaeau gydag amrywiaeth o blanhigion, sicori, llyriad, rhonwellt, meillion coch a gwyn a rhai pys-y-ceirw. Nid ydynt bellach yn defnyddio dim gwrtaith nitrogen ar dir pori.

Mae amrywiaeth yn y glaswelltir, yn ogystal â gwreiddiau dyfnach, yn caniatáu ymdreiddiad llawer cyflymach o ddŵr (mae gan rai caeau gyfraddau ymdreiddiad o tua 10 eiliad o gymharu â hyd at 45 munud ar gyfer caeau sy’n cael eu ffermio llai at atgynhyrchioli) a chadw dŵr. Yn ystod sychder 2022 ni chafodd eu cynhyrchiant glaswellt ei effeithio mewn gwirionedd.



## ‘MAE EIN SYSTEM BELLACH YN LLAWER MWY CYDNERTH GYDA MEWNBYNNAU LLAI COSTUS A MWY O YMWRTHEDD I SYCHDER. MAE MWY O AMRYWIAETH O BLANHIGION SY’N CREU MWY O FAETHOLION WEDI RHOI LLAWER MWY O REOLAETH I NI AR DRAWS Y SYSTEM AC MAE LLAI O ANWEDDOLRWYDD’

(rhywbeth y maent wedi bwriadu ei gyflawni o’r dechrau).

### ÔL TROED CARBON

**Trwy fesur ôl troed carbon, maent yn gwybod bod eu fferm yn ¼ cyfartaledd y DU a 10% o’r ôl troed cyfartalog byd-eang. Canfu adroddiad gan Hybu Cig Cymru a Phrifysgol Bangor fod yr allyriadau net yn cyfateb i 6.33 $CO^2$ fesul kg Cig Eidion.**



# NATUR

‘Mae’n werth chweil gweld sut mae natur yn arallgyfeirio ar y fferm dros amser’



## ARDYSTIAD

‘Mae’r termau adfywiol neu amaethecolegol yn aml yn destun sgwrs ond heb dystiolaeth i’w cefnogi.’

Roedd Aled ac Iwan yn awyddus i ddangos tystiolaeth o’r hyn maen nhw’n ei wneud ac felly pan ddaeth cyfle i fod yn rhan o gynllun peilot rhyngwladol ar ardystiad gyda ‘Byd Gwyrddach (AGW)’ fe wnaethon nhw fanteisio ar y cyfle. Maent bellach wedi cael ‘Ardystiad Atgynhyrchiol ACC’ ac wedi bod trwy broses ardystio gyfannol drylwyr sy’n edrych y tu hwnt i garbon pridd i fwyd iachach, systemau bioamrywiol, aer a dŵr glân, amodau gwaith da a lles anifeiliaid. Yn hollbwysig, mae’r ardystiad yn cynnwys cynllun parhaus ac archwiliad blynyddol. Mae’n rhoi’r hyder iddynt hwy a’u cyflenwyr eu bod yn symud i’r cyfeiriad cywir.

## BIOAMRYWIAETH

‘Fel rhan o’r archwiliad bioamrywiaeth cawsom ymweliad gan ecolegydd a oedd yn gyffrous iawn i weld yr ehedydd a’r llinos’.

Roedd Aled yn teimlo ‘chydig o embaras nad oedd yn gwybod mwy am yr adar ar y fferm ond yn falch o’r hyn a ganfu’r ecolegydd fel rhan o’r broses archwilio. ‘Dywedodd yr ecolegydd mai’r rheswm dros y cynnydd yn yr adar oedd y lefelau uchel o greaduriaid di-asgwrn-cefn ac aeron yn y cloddiau sydd ddim yn cael eu torri’n aml.’ Mae’r gwrychoedd wedi cynyddu lefelau bioamrywiaeth ac nid ydynt wedi effeithio’n negyddol ar gynhyrchiant ac wedi gweithredu fel lloches i’r gwartheg mewn tywydd poeth.



# BWYD

Trwy waith glaswelltir daethant i adnabod y cwmni byrgyrs HONEST, a leolir yn Llundain, a oedd yn awyddus i fuddsoddi mewn datblygu cadwyn gyflenwi cig eidion mwy cynaliadwy. Dechreuon nhw gyda threial ar raddfa fach ac ar ôl datblygu'r berthynas yn llwyddiannus, bellach, maen nhw'n darparu cyflenwad wythnosol i'r cwmni. Mae cogyddion cwmni byrgyrs HONEST wedi ymweld â'r fferm i weld tarddiad y cig.

Mae'r label **Regenerative** yn rhoi premiwm i'r cig eidion. Byddent wrth eu bodd yn gwerthu i gigyddion lleol ond ar hyn o bryd ni allant gael y premiwm sydd ei angen arnynt i wneud hyn. Mae'r cig oen i gyd yn mynd trwy gadwyni cyflenwi confensiynol. 5 mis yn ôl, fe ddechreuon nhw werthu eu cig eidion yn uniongyrchol i'w cymuned trwy gynllun bocs cig newydd sy'n mynd yn dda gyda thua 30 o gwsmeriaid yr wythnos a chynnyrch yn cael ei ddosbarthu pob deufis. Maent yn gweithio gyda chogyddion lleol, trwy Cywain i ddatblygu 4 rysáit gwahanol a fydd yn mynd i mewn i'r bocsys cig o bryd i'w gilydd, gan ychwanegu at yr amrywiaeth.



## CYMUNED

Mae'r fferm yn cynyddu hygyrchedd cig sy'n cael ei ffermio'n atgynhyrchiol yn eu hardal leol ac mae'r gwerthu ar garreg y drws yn mynd yn dda. Mae cludo'r cynnyrch yn golygu trip i'r teulu cyfan gyda'r plant hefyd - mae hynny'n werth chweil. 'Mae ymgysylltiad y bobl yn ddiddorol iawn'. Maen nhw wedi dod i sylweddoli bod ansicrwydd am goginio yn rhwystr i bobl brynu eu cig ac felly, yn dechrau meddwl am fideos ar sut i baratoi darnau penodol o gig fel brisged gan nad yw pobl bob amser yn gwybod sut i'w goginio.'

Mae llawer o grwpiau ffermio a myfyrwyr yn ymweld â'r fferm sydd eisiau dysgu am amaethyddiaeth adfywiol ond hyd yn hyn nid ydynt wedi cynnal digwyddiadau sy'n agored i'r gymuned, er eu bod yn awyddus i wneud hynny. Yn y dyfodol maent yn gobeithio ymweld ag ysgolion ac o bosibl cysylltu â chwricwlwm yr ysgol.




'MAE YNA GOLLI CYSYLLTIAD RHWNG POBL A FFYNHONNELL BWYD AC OS NA FYDD FFERMWYR YN GWNEUD YR YMDRECH BYDD Y CYSYLLTIAD YN CAEL EI GOLLI HYD YN OED YN FWY.'






## FFORDD O FYW


Mae Aled wrth ei fodd gyda’r hyn mae’n ei wneud- ‘Dewch i ni ei roi fel hyn, nid yw boreau Llun yn teimlo fel bore Llun bellach’. ‘Mae gen i falchder’.

Maen nhw’n gweithio tua 50 awr yr wythnos ac mae Aled yn llwyddo i gael pob yn ail benwythnos i ffwrdd a gwyliau. Llwyddodd Llifon, sy’n gweithio ar y fferm, i fynd ar wyliau i Ganada yn ddiweddar gan ddangos eu bod yn cyflawni eu huchelgais o ran ffordd o fyw.

‘Mae cael y ffordd o fyw yn iawn yn bwysig iawn er mwyn denu pobl i’r sector’. Maent yn gweld hyn fel cyfrannwr allweddol at fusnes llwyddiannus a denu a chadw pobl.

## ELW

Yn ariannol maent yn uned cig eidion proffidiol sy’n cynnig cyflogaeth o safon ac yn cadw teulu i fynd.




Nid yw cost gynyddol gwrtaith a mewnbynnau eraill oherwydd y pandemig a’r rhyfel yn yr Wcráin wedi effeithio ar y busnes mewn gwirionedd. Dair blynedd yn ôl, roedd y fferm yn defnyddio tua 50kg/Ha o Nitrogen ac ychydig o borthiant a brynwyd ond nawr, oherwydd rheolaeth pori, nid ydynt yn defnyddio dim gwrtaith ac ychydig iawn o borthiant sydd wedi creu arbediad enfawr. ‘Mae lloi’n cael eu bwydo nes eu bod yn 120kg ac yna’n mynd at laswellt yn gyfan gwbl. Mae’n arbediad enfawr ar borthiant.’ Cawsant anhawster i brynu hadau meillion coch eleni gan fod mwy o ffermwyr, wedi’u hysgogi gan gost gynyddol gwrtaith, yn dechrau cyflwyno’r planhigion hyn sy’n pennu nitrogen.



# YSBRYDOLI ERAILL

'RWY'N SIARAD Â LLAWER O FFERMWYR …
CAEL Y MEDDYLFRYD CYWIR YW'R GYFRINACH.
Y RHWYSTR MWYAF YW FI'

'MAE'N DAITH GYFLYM OS YDYCH AM EI GWNEUD OND RHAID COFIO NA ADEILADWYD RHUFAIN MEWN DIWRNOD - RHAID BOD YN AMYNEDDGAR. O FYND ATI I BWYSO A MESUR A CHYNLLUNIO YN OFALUS, GALL LLAWER O'R STRAEN DDIFLANNU'

Am ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu | wwf.org.uk

Symbol panda ©1986 a Nod Masnach Gofrestredig WWF ®"WWF". Mae WWF-UK yn elusen gofrestredig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warrant (4016725)

CYNHYRCHWYD MEWN CYDWEITHREDIAD

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

LLUNIAU: © ALED LLYWELYN / WWF CYMRU



# STRAEON GWLAD EIN DYFODOL

## ASTUDIAETH ACHOS 2

## FFERM NANTCLYD

# CRYNODEB

Mae Liz yn ffarmio gyda'i mab, Oliver, yn Fferm Nantclyd yng Ngheredigion. Mae'n ffarmwr cenhedlaeth gyntaf, ac yn hunan-ddechreuwr, sydd wedi datblygu busnes ffarm hynod lwyddiannus a chynaliadwy dros 30 mlynedd, yn cyflenwi wyau, dofednod, ffrwythau a llysiau, grawn, cig eidion a chig oen. Maen nhw'n gwerthu wyau yn lleol ac yn genedlaethol, bocsys cig a llysiau o gatiau'r ffarm ac yn cyflenwi siopau lleol yn Aberystwyth ac ar hyd ffordd arfordir Ceredigion. Drwy hyn, maen nhw'n cynnig cyflogaeth i dri o bobl.

Cafodd y ffarm ardystiad bioddeinamig gan Demeter, sy'n rhoi sicrwydd eu bod yn anelu at iechyd a gwydnwch ar y ffarm, tra'n gofalu am y pridd, amddiffyn yr amgylchedd, parchu lles eu hanifeiliaid a chynhyrchu bwyd maethlon. Mae ganddynt ddau safle, Nantclyd, safle 30 erw gwlypach ger Aberystwyth lle mae'r ieir yn cael eu cadw, a Ffrwdwenith Isaf, safle 55 erw sychach, ger Aberporth. Yn fan hyn, tyfir grawn a chodlysiau ar gyfer porthiant anifeiliaid, ffrwythau a llysiau ar gyfer y farchnad leol. Hefyd, yma mae gwartheg a defaid yn cael eu magu ar gyfer cig ac i ychwanegu ffrwythlondeb.

Maen nhw'n ffarmio'n holistaidd ac yn gweithio gyda natur, a'u nod yw bod yn system gaeedig cyn belled ag sy'n bosibl. Golyga hyn eu bod nhw'n lleihau swm y mewnbwn allanol ac yn cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r hyn sydd ei angen arnynt ar eu ffarm. Nid ydyn nhw'n mewnforio porthiant anifeiliaid megis soi, a allai fod yn cyfrannu at ddatgoedwigo dramor, ac yn hytrach, mae'r ieir yn cael grawn a dyfir ar y fferm. Yn yr un modd, mae'r gwartheg a'r defaid yn bwyta gwair a dyfir yn eu caeau. Cynhyrchir compost ar y ffarm, sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu ffrwythau a llysiau. Maen nhw'n rhagweithiol yn annog bioamrywiaeth yn rhan o'u system














**"GWNAETHOM FABWYSIADU ARFERION BIODDEINAMIG FEL DULL FFARMIO HOLISTAIDD - ROEDD YN SYSTEM FFARMIO NAD OEDD YN DIBYNNU AR BRYNU I MEWN. DOEDD GYNNON NI DDIM BYD I DDECHRAU, AC ROEDD ANGEN INNI OFALU AM Y TIR HYD EITHAF EIN GALLU. SYLWEDDOLOM BOD MODD GWNEUD HYN DRWY FFARMIO MEWN FFORDD BIODDEINAMIG."**

# Y DAITH

Cafodd Liz ei magwraeth ar gyrion Manceinion, ac arweiniodd ei chariad at geffylau ati'n treulio amser ar ffermydd llaeth a byw da lleol. Aeth ymlaen i astudio amaeth yn Aberystwyth, a threuliodd 10 mlynedd yn godro ac yn gweithio ar ffermydd confensiynol yng Nghymru.

**"BRYD HYNNY, RO'N I'N DYST I DDIRADDIAD Y TIR AC IECHYD ANIFEILIAID, A DIBYNIAETH GYNYDDOL FFERMWYR AR YR HAEN BUSNES AMAETH A OEDD YN FWY NA NHW BELLACH. I MI, ROEDD HI'N TEIMLO FEL BOD FFARMIO'N MYND I'R CYFEIRIAD ANGHYWIR."**

Wedi dod o hyd i'r llecyn o dir mwyaf rhesymol, prynodd hi a'i phartner Nantclyd, ar ochr ogleddol cwm Ystwyth, 400 troedfedd yn uwch na lefel y môr tua'r de o Aberystwyth. Y bwriad oedd ffarmio'n organig, ond wrth i'r blynyddoedd fynd yn eu blaenau daeth i'r amlwg nad oedd organig yn unig yn ddigon i gyflawni'r nodau personol yr oeddent wedi'u gosod, a dechreuon nhw fabwysiadu dulliau bioddeinamig, a chanolbwyntio ar roi egni nôl i'r pridd a chydnabod y cysylltiadau rhwng popeth.

Y peth cyntaf a wnaethon nhw oedd mynd ati i blannu coed ar gyrion y tir gyda Grant Coetir. Gwnaethon nhw hefyd osod ffensys o amgylch y ffarm, gosod dyfrdwll, creu mynediad oddi ar y ffordd, a chodi sied a charafán. Dechreuon nhw drwy dyfu mefus a'u gwerthu nhw'n lleol ac i laethdy *Rachel's Organic*, ac maent wedi tyfu mefus bob blwyddyn ers hynny. Dechreuodd Nantclyd esblygu, a phenderfynon nhw osod twnnel polythen i ymestyn y tymor tyfu. Bellach, mae hanner erw o dwneli polythen yn cael eu rheoli, gyda llawer o ryng-gnydu a thyfu hadau.





**"WRTH I'R MENTRAU GRONNI AC ARALLGYFEIRIO, DAETH Y CYSYLLTIADAU A'R MANTEISION I'R AMLWG, O FYWYD Y PRIDD I GYNHYRCHEDD CYFFREDINOL Y FFARM."**









Er mwyn cael incwm wythnosol rheolaidd i'r teulu, cyrhaeddodd dau sied o ieir dodwy yn 1999. Datblygodd y busnes dofednod i gyfanswm o 1000 o ieir. Yn eu barn nhw, dyma'r uchafswm nifer o ieir all gael eu cadw ar y tir heb arwain at nitrogen gormodol yn effeithio'r ardal leol. Mae tail yr ieir yn cael ei gompostio gyda mater organig arall. Bellach, mae ganddynt tua 600 o ieir sy'n cael eu cadw am gyfnod hy.

**"YCHWANEGOM Y DOFEDNOD 20 MLYNEDD YN ÔL ER MWYN GALLU CYSYLLTU EIN HARFERION BYW DA Â SYSTEM HOLISTAIDD."**

Pan ddaeth Oliver adref ag awydd ffarmio yn 2012, penderfynwyd ymestyn a phrynu Ffrwdwenith Isaf gyda benthyciad, a oedd yn bosibl oherwydd yr elw o'r busnes ieir ac wyau. Bellach, dyma gartref diadell tua 20 o ddefaid bridio Dorset, a buches fach o wartheg cig eidion Hereford, sy'n cael eu bwydo ar y porfa yn unig. Mae'r defaid yn helpu i reoli'r caeau grawn, ac mae pori yn gyffredinol yn helpu i feithrin ffrwythlondeb. Mae hefyd dwy erw o gaeau mefus, tatws, llysiau gwraidd, gwrdiau a bresych, yn ogystal â chnydau arae megis grawn, pys a cheirch crai i fwydo'r ieir. Mae'r ffarm yn bennaf hunan-gynhaliol, ac maent hefyd wedi adeiladu erwau bach o Hen Gymro.





# BWYD

Prif allbwn y ffarm yw wyau'n cael eu gwerthu i siopau lleol, ond mae'r wyau hefyd yn mynd y tu allan i Gymru, yn gyntaf drwy *Organic Farm Foods* ac yna *Organic Fresh Food Co., Black Mountain Foods* ac yn fwy diweddar *Abel & Cole*. Maent hefyd yn gwerthu cig cyw iâr. Maen nhw'n gwerthu oddeutu 200 dwsin o focsys wyau bob wythnos, a 50 ceiliog y mis ar gyfer cig. Maent hefyd yn gwerthu cig oen a chig eidion sydd wedi'u bwydo ar borfa yn unig mewn bocsys cig lleol, o wyn defaid Dorset a gwartheg Hereford. Mae'r bocsys yn cael eu gwerthu o gatiau'r ffarm, ac maent hefyd yn cyflenwi siopau lleol yn Aberystwyth a siopau ar hyd ffordd arfordir Ceredigion.

**"MAE GWERTHU'N UNIONGYRCHOL YN Y MARCHNADOEDD YN RHOI CYFLE I SIARAD Â PHOBL AM Y FFORDD RYDYN NI'N FFARMIO. MAE HI'N BWYSIG BOD POBL YN DEALL Y BWYD RYDYN NI'N EI DYFU."**

Caiff eu ffrwythau a llysiau eu gwerthu ar gatiau'r ffarm, drwy focsys llysiau ac yn y farchnad ffermwyr wythnosol yn Llandudoch. Eleni, aeth y grawn Hen Gymro a dyfwyd i felinau blawd lleol i wneud blawd a bara. Maent yn ysgrifennu cylchlythyr wythnosol i gwsmeriaid er mwyn cyfathrebu am eu cynnyrch, ac yn siarad â phobl yn y farchnad ffermwyr lleol.




**"MAE POB DIM YN NEWIDIOL, FELLY MAE'N RHAID BOD YN HYBLYG. DYNA PAM RYDYN NI WEDI ARALLGYFEIRIO AC YN GWERTHU'N UNIONGYRCHOL YN AMLACH."**









# YR HINSAWDD A NATUR


Mae rhan o dir Ffrwdwenith Isaf ger Aberporth yn cwympo i'r môr, felly mae Liz ac Oliver yn hynod ymwybodol o effeithiau newid yn yr hinsawdd. Eu prif dull o ran lleddfu newid hinsawdd yw ffarmio'n holistaidd a chyda natur, gyda chyn lleied o fewnbwn allanol ag sy'n bosibl. Maen nhw'n plannu coed ac yn creu cynefinoedd, yn lleihau dibyniaeth ar fewnbwn drwy dyfu porthiant ar y ffarm a mabwysiadu systemau effeithlon. Maen nhw hefyd yn ailgylchu maeth drwy gompostio a chyflenwi bwyd yn lleol.



**"WRTH EDRYCH AR NATUR, MAE'N GLIR NAD YW AR EI PHEN EI HUN, NEU'N RHAN AR WAHÂN O BOPETH, MAE'N GRAFF AC YN YMATEB YN GYSON I'R YSGOGIADAU DIWEDDARAF; FEL BODAU DYNOL, MAE'N RHAID INNI WRANDO AR HYN. DWI WEDI DOD I BARCHU FY FFARM, BOD YN DDIOLCHGAR IDDO AC EDMYGU POPETH MAE'N EI WNEUD."**



**“MAE GENNYM IEIR FACH Y DWR, GWENOLIAID, GWENOLIAID TŶ, BROGAOD A LLYFFANTOD, LLYGOD, LLYGOD Y DWR A CHWISTLOD... MAE PAWB SYDD YMA WRTH EU BODD Â’R LLE.”**









Ers dechrau ar y ffarm, maent wedi plannu dros 3000 o goed o hadau a gasglwyd ganddyn nhw eu hunain. Maent yn credu bod hyn yn chwarae rhan hanfodol o ran meithrin y rhwydwaith ffwngaidd yn y pridd, sy’n helpu o ran ffrwythlondeb. Bellach, mae tua 20% o Nantclyd wedi’i orchuddio gan goetir, ac mae’r adar yn uchel eu cloch. Mae safle arfordirol Ffrwdwenith Isaf yn darparu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau sy’n lleihau o ran niferoedd, megis ehedyddion, ac mae hefyd yn dir hela pwysig i rywogaethau allweddol megis hebogau tramor.

Ni fydd y gwair fyth yn cael ei bori’n rhy fyr, ond yn hytrach, cânt eu pori fesul padog am bedwar i bump diwrnod, ac yna byddant yn cael eu gadael am bedwar i chwe wythnos yn dibynnu ar adeg y flwyddyn. Mae’r system hon yn galluogi’r gwair i ail-dyfu, yn ogystal â chloi’r carbon yn y tir. Mae hefyd yn wych ar gyfer iechyd anifeiliaid.

Yn 2008, dechreuon nhw fagu eu hieir amnewid eu hunain, ac maent bellach wedi cronni eu haid bridio eu hunain. Mae’r ieir yn perfformio’n wahanol i’r ieir masnachol hybrid, gan eu bod yn arafach yn dodwy ac yn dodwy wyau llai, sy’n cael eu dodwy am gyfnod hirach. Nid yw cyfnod dodwy prysur ieir masnachol yn berthnasol iddynt, ac yn hytrach maen nhw’n cynhyrchu 70-80% sefydlog yn ystod y flwyddyn, yn dibynnu ar y tymor a’r tywydd. Mae hyn yn lleihau’r straen sydd ynghlwm wrth broses gynhyrchu wyau prysur yn ystod 25-40 wythnos fel bridiau masnachol a ddefnyddir yn aml. Ar ddiwedd y cyfnod dodwy, mae pwysau cyrff yr ieir tua 1.7kg-2.2kg yn 2.5 mlwydd oed. Maen nhw’n iach ac yn llawn plu, ac yn ieir hawdd eu rheoli. Er hyn, mae angen bod yn ofalus o ran rheoli cyflwr deorllyd. Bydd y ceiliogod yn cael eu lladd pan fyddant rhwng 18 a 24 wythnos oed, gan roi carcas yn pwyso rhwng 2 a 2.5 kg. Mae’r adar yn bwydo ar rawn cartref a phorfa, a does dim angen cymaint o brotein arnyn nhw sydd felly’n lleihau’r angen am borthiant allanol. Lleolir yr ieir mewn 150 o siediau ieir symudol, fel bod yr ieir yn elwa ar borfa ffres.

**“MAE SYSTEM FFARMIO GAEEDIG YN GWNEUD Y FFARM YN WYDN, AC YN HELP MAWR INNI.”**

Mae gan y ffarm ardystiad bioddeinamig, ac felly mae’n samplo’r pridd yn rheolaidd. Maent yn defnyddio peiriant compostio i greu compost aerobig mewn rhesi hir o’r enw ‘rhesi gwynt’ (windrows). Mae hyn yn gwella’n sylweddol y cylch maetholynnau ar y ffarm, gan wneud defnydd gwell o dail y dofednod. Maen nhw’n casglu amrywiaeth o gynhwysion, o bob rhan o’r ffarm ac yn eu gosod mewn haenau yn y rhesi - pren, gwastraff, tail dofednod, gwartheg, ceffylau, dail tafol, ysgall, danadl a gwair. Mae’r rhes yn cael ei chymysgu a’i throi pan fydd yn cyrraedd 65°C (mae hyn yn lladd pathogenau a hadau chwyn) ac yna’n cael ei throi eto pump i ddeg gwaith yn ystod ei bywyd. Maen nhw’n ychwanegu’r paratoadau bioddeinamig i’r rhesi compost, sydd yna’n cael eu pentyrru ar yr iard i aeddfedu ac esblygu. Mae dadansoddiad compost wedi dangos amrywiaeth helaeth a phoblogaeth uchel o fywyd pridd microbaidd megis ffwng, bacteria, protozoa a nematodau. Yna, defnyddir y compost hwn ar y ffarm i dyfu cynnyrch.

**"FEL FFARMWR - DIM OND CEIDWAD Y FFARM YDW I. I MI, Y PETH PWYSIG YW GADAEL Y FFARM YN WELL NA FEL OEDD HI PAN GYRHAEDDON NI, MAE'N YMWNEUD Â GADAEL RHYWBETH GWELL AR ÔL I GENEDLAETHAU'R DYFODOL A'R PLANT"**



Am ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu | wwf.org.uk

Symbol panda ©1986 a Nod Masnach Gofrestredig WWF ®"WWF". Mae WWF-UK yn elusen gofrestredig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warrant (4016725)

CYNHYRCHWYD MEWN CYDWEITHREDIAD

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

LLUNIAU: © ALED LLYWELYN / WWF CYMRU



# STRAEON GWLAD EIN DYFODOL

## ASTUDIAETH ACHOS 3

## FFERM GLANCYNIN

Mae Elfyn Davies a'i wraig Rhian yn rhedeg ffarm laeth 60 erw ar gyrion Sanclêr, ger yr afon Cynin sy'n llifo i lawr i'r môr heibio tŷ cychod Dylan Thomas yn Nhalacharn, Sir Gâr.

# 'GALL FFERMYDD BACH WNEUD YN DDA HEFYD'



# Y DAITH

Daeth Elfyn o gefndir ffarmio, ond aeth ar drywydd gyrfa mewn peirianneg cyn dychwelyd i ffarmio 25 mlynedd yn ôl pan roedd bron yn 50 oed. Roedd Elfyn a Rhian am gael lle hyfryd i fyw, yn ogystal â rhywle i greu cynefin ffyniannus i fywyd gwyllt.

Dechreuon nhw ffarmio drwy ddibynnu ar blaleiddiaid a gwrtaith synthetig sy'n niweidiol i natur, ond pan sylweddolon nhw nad oedd yn gweithio iddynt, dechreuon nhw roi dulliau organig ar waith sy'n gweithio gyda natur. Dydyn nhw heb edrych nôl wedi hynny.

Doedd hi ddim yn hawdd iddynt droi at yr organig, gan fod pethau'n cymryd amser i dyfu i ddechrau, ond gwellodd pethau'n fuan wrth i wreiddiau dyfu'n hirach ac wrth i'r gwair gryfhau a denu mwy o faeth, megis magnesiwm, o'r pridd. Gydag ansawdd gwair gwell, ac amrywiaeth o blanhigion, gwelodd Elfyn a Rhian gynnydd mewn bioamrywiaeth a gwelliant i iechyd eu gwartheg.

'ROEDD HI'N ANODD TROI, DOEDD DIM YN TYFU'N GYFLYM. OND WRTH I'R TIR SETLO MAE'R GWAIR WEDI DECHRAU GWNEUD YN DDA. PAN MAE FFERMWYR YN DEFNYDDIO GWRTAITH ARTIFFISIAL AR WAIR, MAE'N DATBLYGU GWREIDDIAU BYR; DYDYN NHW'M YN CHWILIO AM FAETH... OND YN FAN HYN, MAE'R GWREIDDIAU'N DDWFN AC YN CYRRAEDD MWYNAU AC ELFENNAU ERAILL SY'N EU GWNEUD NHW'N GRYFACH AC YN CADW'R GWARTHEG YN IACH.'

Bellach, mae Glancynin yn hafan ar gyfer bywyd gwyllt, yn ogystal â ffarm laeth llwyddiannus sydd hefyd yn cynhyrchu ac yn gwerthu cynnyrch llaeth drwy ddod yn bartneriaid â busnesau lleol a'r gymuned ehangach.

Drwy wneud hyn, maent hefyd wedi creu amgylchedd gwell ar gyfer eu da byw. Mae'r gwartheg yn iach ac yn fodlon gyda digon o loches, porfeydd da a gwrychoedd y gallent bori drwyddynt yn unol â'u hanghenion dietegol.












'AC MAE'R GWRYCHOEDD YN RHOI LLOCHES I'R GWARTHEG, BLE BYNNAG Y MAE'R HAUL. MAEN NHW'N BWYTA'R DAIL, YR HELYG A'R PLANHIGION ERAILL GAN GYNNWYS MEILLION AC YN MYND AR ÔL HUNAN-FEDDYGAETH'



# NATUR

Mae gan y ffarm ardystiad Pasture for Life a'r Gymdeithas Pridd, ac mae Elfyn yn angerddol am rol natur ym maes ffarmio. Tail y ffarm yw'r unig wrtaith a ddefnyddir ar y pridd, ac mae'r gwartheg yn bwyta'r porfa heb unrhyw ddibyniaeth ar unrhyw borthiant soi i ategu eu dietau. Nid yw'r tir wedi'i aredig ers y 1990au, gan arwain at iechyd gwell yn y pridd gan ei fod yn cynnal ei strwythur naturiol, ei ddefnydd organig, ei ficrobau ac organebau, sy'n helpu i'w gadw'n ffrwythlon.

Mae pridd heb ei drin hefyd yn atal carbon rhag dianc i'r aer. Drwy weithio gyda natur drwy roi dull amaethecolegol ar waith, gall Elfyn fanteisio i'r eithaf ar ffrwythlondeb naturiol y pridd, tra'n gwella bioamrywiaeth a thaclo newid yn yr hinsawdd.

Ni chaiff y gwrychoedd eu torri bob blwyddyn, sy'n digwydd ar lawer o ffermydd. Oherwydd hyn, maen nhw'n tyfu'n uchel ac yn dal carbon. Mae eu gadael am gyfnod hy yn annog amrywiaeth fawr o goed a phlanhigion, sy'n darparu bwyd ar gyfer bywyd gwyllt a gwartheg. Mae'r gwrychoedd uchel hyn sydd ond yn cael eu torri pan fyddant rhwng 15 ac 18 oed at ddibenion coed tân a darnau pren, yn creu lloches i wartheg a chynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, ac mae llu ohonynt i'w cael. Mae porfeydd hynafol sy'n cael eu pori, gwrychoedd, pyllau a chyrsiau dwr, a pherllan yn creu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt megis brogaod, llyffantod, madfallod y dwr, gweision y neidr a mursennod, nadroedd gwair, llwynogod, moch daear, ystlumod, chwilod a phryfaid eraill, tylluanod a bwncathod, yn ogystal â llawer o adar eraill.











# HINSAWDD

Mae gwartheg yn pori yn y caeau yn dosrannu ffrwythlondeb yn naturiol, yn hytrach na ffarmwr yn gorfod ei daenu. Pan fydd y gwartheg yn cael eu cadw yn y siediau, mae'r tail yn cael ei gompostio. Cymysgir darnau pren gyda thail y gwartheg i greu compost sy'n cael ei ddychwelyd i'r tir. Mae peidio ag aredig y tir yn golygu bod y carbon a gedwir yn cael ei storio yn y tir, sy'n arwain at gyfuniad mawr o blanhigion â gwreiddiau dwfn, sy'n parhau i allu cael mynediad at ddŵr hyd yn oed yn ystod cyfnodau sych iawn. Roedd hyn yn golygu nad oedd haf sych iawn 2022 yn effeithio ar gynhyrchu silwair na phrosesau torri gwair ar gyfer bêls gwellt.

Yr unig borthiant allanol sy'n dod ar dir y fferm yw'r lwsérn ac alffalffa organig, i annog y gwartheg i ddod i mewn ar gyfer godro. Fel arall, mae'r gwartheg yn pori yn y caeau neu'n bwyta silwair.





**'FI'N CYNHYRCHU CNYDAU SILWAIR GWELL NA LLAWER O BOBL ERAILL'**
















# BWYD, Y GYMUNED FFORDD O FYW

Mae Elfyn yn credu ei bod hi'n bwysig bod ffermydd yn cael eu hystyried yn ganolfannau creadigol sy'n cynhyrchu bwyd. Mae Glancynin yn gartref i 85 o wartheg Meuse Rhine Issel sy'n cynhyrchu oddeutu 1000 litr o laeth bob dydd, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ystod o gynnyrch llaeth ar y ffarm, gan gynnwys ceffir, iogyrt soi a chaws. Mae'r cynnyrch yn cael ei farchnata'n lleol dan frand Sanclêr Organic. Bob tair wythnos, cludir llaeth i Gaws Cenarth er mwyn ei droi'n gaws. Yn ôl cwsmeriaid, mae'r llaeth yn blasu'n wych ac mae profion yn dangos fod ganddo lefelau uwch o Omega 3 a 6, sy'n wych ar gyfer iechyd y galon.


## MAE GWARTHEG ELFYN YN TUEDDU I FYW'N HIRACH NA GWARTHEG AR FFARM LAETH CYFARTALOG, GAN GAEL LLOI'N HWYRACH AC YN GODRO'N LLAI DWYS AM GYFNOD HIRACH O AMSER.

Yn ogystal â chefnogi'r gymuned drwy ddarparu ffynhonnell leol o gynnyrch llaeth, maen nhw'n cynnig cyflogaeth yn lleol drwy groesawu pobl ifanc o'r pentref i weithio ar y ffarm. Ar hyn o bryd, maen nhw'n agored i drafod cyfleoedd datblygu drwy sicrhau bod ychydig o erwau o dir ar gael i bobl â diddordeb i ddechrau menter garddwriaeth bach yn lleol.

Mae Elfyn a Rhian yn mwynhau ffordd o fyw heddychlon yn y ffarm, lle maent wedi taro balans rhwng gwneud bywoliaeth, darparu ar gyfer y gymuned a chreu hafan ar gyfer bywyd gwyllt a natur.





'FI'N YMLACIO LLAWER MWY AR ÔL BOD ALLAN YN Y BORE. MAE'R COED, A CHAEL FY AMGYLCHYNU GAN GOED, YN GWNEUD I MI YMLACIO, A'R GWARTHEG HEFYD.'

Am ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu | wwf.org.uk

Symbol panda ©1986 a Nod Masnach Gofrestredig WWF ®"WWF". Mae WWF-UK yn elusen gofrestredig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warrant (4016725)

CYNHYRCHWYD MEWN CYDWEITHREDIAD

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

LLUNIAU: © ALED LLYWELYN / WWF CYMRU



# STRAEON GWLAD EIN DYFODOL

## ASTUDIAETH ACHOS 4

## FFERM SLADE

# CRYNODEB

Mae Polly a Graeme yn ffermwyr tenant trydydd cenhedlaeth yn Fferm Slade, ger Pen-y-bont ar Ogwr yn Ne Cymru. Maent wedi bod yn ffarmio'n organig ar Fferm Slade ers dros 20 mlynedd. Maen nhw'n cyflogi dau labrwr ffarm llawn amser, un gyrrwr tractor, ysgrifennydd/cigydd rhan amser a thyfwr llysiau ar sail llawn amser o fis Mehefin i fis Rhagfyr, ac yn rhan amser y tu allan i'r tymor. Maen nhw'n credu'n gryf iawn y dylai ffermydd fod wrth wraidd eu cymunedau.

Mae Fferm Slade yn ffarm gymysg 800 erw gydag oddeutu 150 o wartheg, 50 o foch, 500 o ddefaid ac 800 o ŵyn, yn ogystal â 200 erw o rawn ac erw o lysiau. Mae wedi cael ei ffarmio ers o leiaf y 600 mlynedd diwethaf, ac mae Polly a Graeme yn ymwybodol iawn mai ceidwaid tir dros dro ydyn nhw, sydd â chyfrifoldeb dros sicrhau etifeddiaeth amgylcheddol positif.





''DYN NI'N CREDU MAI FFARMIO ORGANIG YW'R UNIG FFORDD SYNHWYROL O FFARMIO ER LLES YR AMGYLCHEDD AC ANSAWDD Y CYNNYRCH. 'DYN NI'N DEFNYDDIO EIN DULL FFARMIO NI ER MWYN SICRHAU ETIFEDDIAETH AR GYFER Y DYFODOL.'








'FEL FFARM ORGANIG, NID YDYM YN DEFNYDDIO PLALEIDDIAID NA CHWYNLADDWYR, AC RYDYN NI'N GWEITHIO AG ARBENIGWYR I DDATBLYGU CYNEFINOEDD NATURIOL AR GYFER EIN HADAR FFERMDIR CYNHENID, BLODAU GWYLLT A RHYWOGAETHAU O ANIFEILIAID.'



'MAE'R RHAN FWYAF O FFERMWYR YN TYFU GRAWNFWYD YN Y GAEAF, GAN FOD HYNNY'N GOLYGU MWY O ELW, OND RYDYN NI'N HADU YN Y GWANWYN. MAE HYN YN GOLYGU BOD YCHYDIG O DYFIANT YN Y CAEAU I FWYDO'R ADAR DROS Y GAEAF. Y TRO DIWETHAF I NI GYFRIF ADAR, ROEDDEM WRTH EIN BODD O WELD DROS 50 O FELYN YR EITHIN YN TREULIO'R GAEAF YN UN O'N HARDALOEDD BYWYD GWYLLT DYNODEDIG.'



# NATUR A'R HINSAWDD

Sail eu system ffarmio yw cynaliadwyedd a mewnbwn isel. Dydyn nhw'm yn ychwanegu mewnbwn allanol megis gwrtaith a phlaleiddiaid nitrogen, nac yn rhoi porthiant wedi'i fewnforio i'w da byw. Yn hytrach, maen nhw'n defnyddio tail da byw i dyfu cnydau a gwair sydd yn eu tro'n cael eu defnyddio i fwydo'r da byw. Maen nhw hefyd yn tyfu meillion sy'n naturiol yn sefydlogi'r nitrogen yn y pridd, sydd yna'n cael ei roi ar waith mewn cnydau dilynol.

'GWN FOD FFARMIO GYDA CHEMEGION WEDI CYNYDDU ELW'N SYLWEDDOL DROS Y 70 MLYNEDD DIWETHAF, OND MAE HYN WEDI EFFEITHIO'N FAWR AR NATUR, AC MAE NIFEROEDD RHYWOGAETHAU WEDI LLEIHAU'N OFNADWY.

Er mwyn annog bywyd adar maen nhw'n hadu grawn yn y gwanwyn, ac yn ei gynaeafu yn yr hydref. Mae hyn wedi arwain at niferoedd mawr o ymwelwyr o adar sydd ar y 'rhestr goch', hynny yw, bod eu niferoedd ar i lawr yn ofnadwy.

Mae niferoedd dolydd wedi bod yn lleihau'n sylweddol ar draws y DU ers y 1930au, ond mae Graeme a Polly yn gweithio ar gynnal a rheoli dolydd ar y fferm. Mae ganddynt Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) a dolydd blodau arbennig eraill. Dros yr 20 mlynedd ddiwethaf, mae defnydd organig y caeau yn gyffredinol wedi cynyddu gan 2%, sy'n dangos bod tir ar y fferm hefyd yn cadw carbon ac yn chwarae rhan yn lleddfu newid yn yr hinsawdd.



# Y GYMUNED, BWYD A FFORDD O FYW

Mae grawn a dyfir ar Fferm Slade yn Slade yn bwydo anifeiliaid, ac hefyd yn cael ei werthu i'w fwyta gan bobl. Tyfir grawn Hen Gymro, sy'n cael ei felino'n lleol ac yna ymlaen i bobyddion. Mae'r grawn hefyd yn cael ei werthu drwy Organic Arable ac yn mynd i mewn i flawd fel Doves. Mae ceirch Fferm Slade yn mynd i Ogledd Iwerddon, ac y llynedd enillon nhw'r wobr 'White's best porridge oats in the UK'.

Mae hyd at 20% o'u cig eidion, cig oen a chig dafad organig a 100% o'u porc yn cael ei werthu drwy'r siop ffarm ar y safle, yn ogystal ag mewn bocsys cig sy'n cael eu cludo i'r gymuned leol bob mis. Mae gweddill y cig eidion a'r cig oen yn cael ei gyflenwi i archfarchnad.

Gwerthir y llysiau drwy gynllun Amaethyddiaeth â Chymorth y Gymuned (CSA), sy'n golygu eu bod nhw'n gweithio gyda'r gymuned i ddarparu bagiau llysiau wythnosol ar gyfer y tymor tyfu.

Mae'r gymuned yn bwysig iawn i Fferm Slade, ac anogir cwsmeriaid sy'n gallu fforddio dalu ychydig mwy tuag at fagiau llysiau i bobl ar gyflogau is. Mae Fferm Slade yn gweithio gydag elusen leol sy'n dosrannu'r bagiau llysiau hyn wrth gefnogi teuluoedd ifanc, gan ddangos iddynt sut i ddefnyddio'r llysiau. Yn ystod y tymor tyfu diwethaf, cafodd 10 o fagiau'r wythnos eu cyflenwi i bobl a allai fel arall ei chael hi'n anodd cael mynediad i gynnyrch ffres a chymryd rhan.

Mae Polly a Graeme hefyd wedi addasu un o'r siediau ar y fferm i fod yn ystafell bŵts a dillad gwrth-ddŵr i blant ysgol, ac maen nhw'n cynnal ymweliadau ffarm gyda phump o ysgolion cynradd yn Y Barri. Mae llawer o ddosbarthiadau'n dod i ymweld â'r ffarm hyd at chwe gwaith y flwyddyn i ddeall ffarmio drwy'r tymhorau. Ymysg pethau eraill, mae'r plant wedi dysgu am wrtaith a phwysigrwydd planhigion legwmaidd er mwyn sefydlogi nitrogen, yn ogystal â hwsmonaeth anifeiliaid.






'MAE EIN CYNLLUN BAGIAU LLYSIAU YN FFORDD O DDOD Â'R TIR, Y GYMUNED A'R FFARMWR AT EI GILYDD.'



'RYDYN NI WIR YN CEISIO CYFFROI PLANT, A GWNEUD IDDYNT DDEALL SUT MAE FFARMIO'N GWEITHIO. MAE DATGYSYLLTIAD ENFAWR RHWNG CYMUNEDAU A FFARMIO, AC RYDYN NI'N CEISIO DATRYS HYNNY DRWY YMWELIADAU FFARM.'





‘MAE GENNYM STORI I’W RHANNU - GALLWN GYNHYRCHU BWYD MAETHLON O SAFON UCHEL, SYDD O FUDD I AMGYLCHEDD CYMRU, AC SY’N CYSYLLTU POBL AG O BLE Y MAE’R BWYD WEDI DOD.’

Am ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu | wwf.org.uk

Symbol panda ©1986 a Nod Masnach Gofrestredig WWF ®"WWF". Mae WWF-UK yn elusen gofrestredig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warrant (4016725)

CYNHYRCHWYD MEWN CYDWEITHREDIAD

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

LLUNIAU: © ALED LLYWELYN / WWF CYMRU



ASTUDIAETH ACHOS 6

WILD SHEPHERD

# STRAEON GWLAD EIN DYFODOL

# CRYNODEB

Mam a merch yw Tanya ac Erinna, ac mae'r bartneriaeth hon o fugeiliaid yn ffermio'n gynaliadwy. Maent yn gofalu am hyd at 2000 o ddefaid mynydd Cymreig ar fferm fynydd rhent ym Mynyddoedd Cambria a Chwm Elan. Mae'r fferm, sy'n cynnwys rhostir a thir pori garw ar lwyfandir enfawr, mewn ardal mor anghysbell ac uchel fel nad oes ganddynt brif gyflenwad trydan o gwbl.

Maent yn bugeilio mewn partneriaeth â byd natur, a hynny er mwyn cefnogi'r gwaith o amddiffyn bioamrywiaeth yr ucheldir. Mae'r fferm yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o fewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig/Ardal Cadwraeth Arbennig Elenydd, sy'n cael ei gydnabod fel rhan o dir mynydd pwysicaf Ewrop ar gyfer cadwraeth natur.

Mae'r defaid yn cael eu hel i fyny'r mynydd, sy'n golygu eu bod nhw'n cael eu rheoli mewn ffordd naturiol sy'n dibynnu ar wybodaeth y defaid o'u ffiniau, a'r llefydd gorau i bori a chysgodi. Mae'r wybodaeth hon wedi'i throsglwyddo o'r defaid i'r ŵyn dros genedlaethau. Mae hyn yn galluogi'r anifeiliaid i bori ardaloedd penodol yn gwbl rhydd. Mae'r preiddiau'n cael eu cyfarwyddo i bori ardaloedd penodol, ac i ddatblygu ymwrthedd i barasitiaid, diffygion o ran mwynau, a thocsinau planhigion penodol.

Ddwy flynedd yn ôl, sefydlodd Erinna siop gigydd ar y fferm, lle dechreuodd werthu cig a gynhyrchwyd yn gynaliadwy ar y fferm, wedi'i farchnata o dan eu brand, *WildShepherd*.

# Y DAITH

Fe gymerodd Tanya drosodd y denantiaeth, ar ôl i'r cyfrifoldeb o redeg y fferm gael ei drosglwyddo iddynt gan nain Erinna yn 2011. Ar ôl hyfforddi yng Ngholeg Amaethyddol Gelli Aur, treuliodd Erinna flynyddoedd yn godro buchod ar ffermydd ledled y DU, cyn dychwelyd i Gwm Elan.

Mae Tanya yn treulio hanner ei hamser yn gweithio ar y fferm, a'r hanner arall fel darlithydd, tra bod Erinna, sydd bellach yn 25 oed, yn gweithio'n llawn amser ar y fferm, ac wedi datblygu siop gigydd ar y safle i werthu eu cig.







'MAE AROLYGON GWYDDONOL AR Y FFERM WEDI COFNODI CANNOEDD O WAHANOL BLANHIGION, ALGÂU, ADAR, BRYOFFYTAU, INFERTEBRATAU, CENNAU, MAMOLION, YMLUSGIAID, AC AMFFIBIAID.'





# BYD NATUR A'R HINSAWDD

Mae'r preiddiau'n cael eu bugeilio a'u symud mewn ffyrdd traddodiadol, boed hynny ar droed, gyda merlod, beic cwad, neu gan ddefnyddio cŵn defaid. Yn ystod y gaeaf, mae'r defaid a'r hesbinod (ŵyn hyd at flwydd oed) yn cael eu symud i ffermydd rhent islaw, er mwyn peidio ag effeithio'n negyddol ar y cynefinoedd ar yr ucheldir a gwarchod y bioamrywiaeth. Yna, maent yn dychwelyd i'r ucheldir i ŵyna. Ar ôl pum diwrnod, mae'r defaid a'r ŵyn yn cael eu gollwng yn rhydd i grwydro'n naturiol, ac i rannu eu profiad ymysg ei gilydd.

Does dim cynhyrchion, fel gwrtaith, sydd wedi'u mewnforio o'r tu allan yn cael eu hychwanegu at y tir. Mae rhannau uchaf y fferm yn cynnwys llwyfandir gydag ardaloedd eang wedi'u gorchuddio gan blanhigion sy'n hoffi asid, fel mwsogl, ffa'r gors, ac arddangosfa lachar, anhygoel llafn y bladur yn ystod yr haf. Mae'r bryniau hyn yn gartref i amrywiaeth o adar prin, ucheldirol gan gynnwys corgwtiaid aur, tylluan glustiog, pibydd y mawn a chudyllod bach. Mae dŵr glan Llyn Cerrigllwydion Isaf (llyn uchel ar y fferm) yn gartref i llyriad-y-dŵr arnofiol, sydd ond yn bodoli yn y cyrff dŵr o'r ansawdd gorau, ac sy'n cael ei gydnabod fel rhywogaeth sydd o'r pwysigrwydd pennaf i Gymru a'r DU.

Wrth i ddŵr corsydd a llynnoedd yr ucheldir ddraenio ar draws y fferm tuag at Afon Elan, mae'n ffurfio rhwydwaith o nentydd drwy'r cwm. Mae'r nentydd hyn yn gartref i drochyddion a siglennod llwyd. Mae cân tinwennod y garn, clochdariaid y cerrig, a chreciau'r eithin yn atseinio drwy'r cymoedd cyfagos. Mae glannau'r nentydd hefyd yn gartref i blanhigion diddorol. Mae hefyd clychlys dail eiddew yn tyfu ar y fferm mewn sgydau dŵr sy'n cael eu hachosi gan lif naturiol y nentydd.


Mae ffens wedi'i gosod o amgylch rhai o'r caeau agosaf at y ffermdy, ac maent yn parhau i fod gartref i fyd natur, fel gylfinirod yn nythu, llygod y dŵr, llwynogod, a gwencïod. O fewn y caeau sydd wedi'u ffensio, mae Tanya ac Erinna wedi plannu cannoedd o goed er mwyn cynnal amrywiaeth o rywogaethau ac i ddarparu cysgod. Fel rhan o'r Rhaglen Weithredu Mawndiroedd Genedlaethol, mae'r ardal hefyd yn cael ei chydnabod am fioamrywiaeth ei mawndiroedd, a faint o garbon y mae'n yn ei ddal.







'MAE GENNYM NI FYWYD GWYLLT ANHYGOEL. YN YSTOD YR HAF, MAE'R FFERM YN ENFYS O LIWIAU OHERWYDD Y BLODAU GWYLLT A'R GRUGOEDD SY'N TYFU YMA. MAE GENNYM NI GWTIAID AUR, GYLFINIROD, A PHAN MAE PLU'R GWEUNYDD YN DECHRAU TYFU MAE'R MYNYDD YN EDRYCH YN BRYDFERTH DROS BEN.'



'DAETH Y RHAGLEN MAWNDIROEDD ATOM ER MWYN CYNNAL DADANSODDIAD O ANSAWDD EIN MAWNDIROEDD; DOEDDEN NHW'N METHU CREDU PA MOR DDA YDYN NHW AM DDAL CARBON, NA CHWAITH EU SAFON O RAN CYNALIADWYEDD.'

# BWYD, CYMUNED A FFORDD O FYW



Efallai eich bod wedi clywed y dywediad "O'r Pridd i'r Plât", ond efallai fod "O Fynydd i'r Farchnad" yn fwy addas yn y sefyllfa hon; mae Erinna yn gweithio i sicrhau bod eu cig o ansawdd uchel ar gael yn lleol i'r gymuned ac i ragor o gwsmeriaid, a hynny drwy werthu ar-lein. Er mwyn lleihau'r straen ar yr anifeiliaid, ac i gyfyngu ar eu hôl troed carbon, maent yn defnyddio lladd-dy lleol. Maent hefyd wedi datblygu uned cigyddiaeth ar y fferm, sy'n cael ei phweru gan ynni adnewyddadwy.

Mae Erinna yn gogydd cymwysedig a phrofiadol hefyd, a hi sy'n arwain y gwaith o ddatblygu amrywiaeth o gynhyrchion cig. Mae'r rhain yn cynnwys darnau arbennig o gig oen, hesbin, a dafad, yn ogystal â byrgers cig oen Cymreig, cebabs, a pheli cig. Mae'r cig yn cael ei anfon mewn deunydd pacio ecogyfeillgar a bioddiraddadwy.

Mae'r fferm yn dal i wynebu heriau, gan gynnwys sut i gael eu cig o fferm fynydd anghysbell i gwsmeriaid, ac maent yn y broses o ddatblygu eu system ddanfon eu hunain. Yng nghanol argyfwng costau byw, maent hefyd yn wynebu heriau wrth geisio datblygu eu sylfaen cwsmeriaid ar gyfer cig oen Cymreig; gan fod cig oen rhatach o Hemisffer y De ar gael mewn siopau ar hyd a lled y wlad.

Mae Erinna yn teimlo'n ffodus iawn o gael bod yn ffermwr mynydd, ac mae'n credu bod ganddynt ran hollbwysig yn y gwaith o gynnal cynefinoedd yr ucheldir ar gyfer y defaid, byd natur, y gymuned, a chenedlaethau'r dyfodol.

'RYDYN NI'N GWERTHFAWROGI BWYD MAETHLON, O ANSAWDD DA, YN FAWR IAWN FEL RHAN O'N DEIET CYTBWYS, IACH A FFORDDIADWY.'

'MAE'R BOBL SYDD WEDI BLASU'R CIG YN MEDDWL EI FOD YN FLASUS AC YN GYNALIADWY DROS BEN.'

'PE BYDDAI PAWB YN GWNEUD EU RHAN DROS GYNALIADWYEDD, BYDDAI'R BYD YN NEWID ER GWELL.'



Am ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu | wwf.org.uk

Symbol panda ©1986 a Nod Masnach Gofrestredig WWF ®"WWF". Mae WWF-UK yn elusen gofrestredig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warrant (4016725)

CYNHYRCHWYD MEWN CYDWEITHREDIAD
Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

LLUNIAU: WILD SHEPHERD



# STRAEON GWLAD EIN DYFODOL

## ASTUDIAETH ACHOS 6

## TYDDYN TEG

Fferm gydweithredol amaethecolegol 30 erw ger Caernarfon yw Tyddyn Teg, sy'n tyfu llysiau ar bum erw o dir. Mae'r fferm yn cyflenwi 170 o focsys llysiau yr wythnos i'r gymuned leol, yn cynhyrchu hyd at £80,000 y flwyddyn drwy werthu llysiau, ac yn darparu siop fferm, becws a llysiau i siopau a bwytai lleol.

Yn swatio rhwng mynyddoedd godidog Parc Cenedlaethol Eryri a'r Fenai, mae'r fferm yn dangos bod modd cynhyrchu llysiau yng Nghymru mewn cytgord â byd natur, gan ddarparu cyflogaeth i nifer fawr o bobl ar ddarn bach o dir ar yr un pryd. Mae 11 o aelodau bellach yn ennill bywoliaeth o'r fferm, sydd hefyd yn cynnig hyfforddeiaethau i newydd-ddyfodiaid bob blwyddyn.



**'MAE LLAWER O'N CYN-HYFFORDDEION WEDI YMUNO Â'R DIWYDIANT YN LLWYDDIANNUS, OND YN Y RHAN FWYAF O ACHOSION DRWY YMUNO Â'N CYDWEITHFA, NEU DRWY GAEL HYFFORDDIANT PELLACH AR FFERMYDD ERAILL.'**










# Y DAITH

Arferai Tyddyn Teg gael ei rhedeg fel Tyddyn Berth am 20 mlynedd – fferm lysiau yn darparu bocsys llysiau. Ar ôl i'w pherchnogion ymddeol yn 2015, cafodd y fferm ei gwerthu i un o sylfaenwyr cwmni cydweithredol Tyddyn Teg. Roedd y gwerthiant yn enghraifft o stori lwyddiant gadarnhaol, gyda'r cwpl yn trosglwyddo eu hetifeddiaeth i'r cwmni. Roedd Tyddyn Teg yn ffodus iawn o etifeddu safle tyfu organig, gyda thwnelau polythen a rhestr o gwsmeriaid. Roedd hyn yn darparu'r sylfaen roedd ei hangen arnynt i gael y fenter newydd ar ei thraed, ac i ffynnu'n gymharol gyflym. Wrth i amser fynd heibio, mae'r cwmni yn bwriadu ad-dalu'r benthyciad a gawsant gan y sylfaenydd, a hynny drwy werthu cyfranddaliadau cymunedol, a denu buddsoddiad moesegol fel bod y cwmni yn eiddo'n llwyr i'r gymuned.





# NATUR

Mae Tyddyn Teg yn tyfu cynnyrch ffres drwy gydol y flwyddyn, yn y caeau ac mewn twneli polythen. Ni ddefnyddir agrogemegau a defnyddir technegau ffermio megis cylchdroi cnydau, tyfu cnydau gorchudd, hau meillion o dan rai cnydau gan droi'r tir cyn lleied â phosibl a chynnal cynefin ar gyfer pryfed defnyddiol ac anifeiliaid eraill. Yn gyffredinol, tyfir llysiau ar tua phum erw o'r tir, ac mae'r gweddill yn cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth.

Maent yn annog bioamrywiaeth drwy gynnal cynefinoedd, fel danadl poethion, prysgwydd a choetir ar y fferm, yn ogystal â galluogi chwyn a gweddillion cnydau (ee bonion brasica) i ail flodeuo lle bo hynny'n bosib. Mae cân yr adar i'w chlywed ym mhobman.  Mae'r holl wastraff cnwd ar y fferm yn cael ei ailgylchu mewn rhyw ffordd, drwy ei gompostio neu ei ail-ymgorffori'n uniongyrchol yn y pridd. Cynnyrch "gwastraff" o ryw fath neu'i gilydd yw'r mewnbynnau amaethyddol yn bennaf – tail, sglodion pren gan feddygon coed, a chompost o wastraff dinesig.









> 'COETIR YW TRAEAN Y TIR, AC MAE'R FFERM WEDI PLANNU MWY O LEINIAU CYSGODI A GWRYCHOEDD. MAE CÂN YR ADAR I'W CHLYWED YM MHOBMAN.'







> "RYDYN NI'N CREDU OS, DRWY DDEFNYDDIO MWY O DDŴR, Y GALLWN DYFU MWY O FWYD A LLEIHAU FAINT O GYNNYRCH Y MAE'N RHAID I'N RHANBARTH EI FEWNFORIO O LEFYDD ERAILL SYDD O BOSIBL DAN FWY O STRAEN DŴR, BOD HYN YN RHYWBETH CADARNHAOL I'W WNEUD.'



> 'DYLEM YMDRECHU I GYNHYRCHU, DOSBARTHU A DEFNYDDIO BWYD MOR EFFEITHLON Â PHOSIBL AR YR AMOD NAD YW HYN YN ARWAIN AT EFFEITHIAU ANDWYOL I'R AMGYLCHEDD NAC I'R GYMDEITHAS YN EHANGACH, NEU MEWN ARFERION SY'N ANGHYNALADWY YN Y TYMOR HIR, LLE MAE AMAETHYDDIAETH "GONFENSIYNOL" SY'N CYNHYRCHU AR LEFEL UCHEL WEDI METHU YN HYN O BETH.'



# HINSAWDD

Mae Tyddyn Teg mewn un o'r ardaloedd sy'n cael y mwyaf o law yn y DU, ac nid yw mewn amgylchedd sydd dan straen dŵr. Er gwaethaf hyn, maent wedi sylweddoli bod angen dyfrhau mwy wrth i'r cyfnodau sych ddigwydd yn amlach.

Nid yw'r system ddyfrhau sydd ganddynt ar hyn o bryd yn ddigonol, ac maent yn y broses o'i huwchraddio gyda phwmp a thanc storio mwy. Roedd hyn yn bosibl o ganlyniad i'r cymorth ariannol a gawsant gan Gynllun Datblygu Amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru, ac maent yn credu y bydd yn eu helpu i gynhyrchu mwy o gnydau, gan fod y system ddyfrhau bresennol yn amharu'n sylweddol ar eu cynhyrchiant ar hyn o bryd..





Mae'r fferm yn defnyddio cyflenwr trydan adnewyddadwy, ac wedi dechrau trin nionod a garlleg gan ddefnyddio aer wedi'i fforsio a heb ei wresogi – er eu bod yn parhau i ddibynnu ar beiriannau sy'n cael eu pweru gan ddisel. Mae'r defnydd o ddisel mewn peiriannau fferm a cherbydau danfon nwyddau yn llai na 1000 o litrau y flwyddyn, neu chwe litr y cwsmer, ar gyfer tyfu a chyflenwi'r rhan fwyaf o'u llysiau. Mae mwy o beiriannau trydan ar gael i ffermydd erbyn hyn, ond maent yn parhau i fod yn afresymol o ddrud i'w prynu.

Fel fferm amaethecolegol, nid yw Tyddyn Teg yn defnyddio cynnyrch fel plaladdwyr a gwrtaith artiffisial. Maent hefyd yn ceisio gwella eu defnydd o dail gwyrdd i leihau'r ddibyniaeth ar dail gwartheg wedi'i fewnforio. Mae defnyddio dim tail o gwbl ar gyfer cnydau'r ardd, a chyn lleied â phosibl o dail ar gyfer cnydau'r caeau, wedi helpu i gynyddu lefel y carbon yn y pridd. Maent yn tyfu meillion o dan y cnydau, yn creu lleiniau sy'n fwy ffrwythlon bob dwy flynedd, ac yn arbrofi drwy gynnal gorchuddion planhigyn parhaol ar lwybrau; mae'r rhain yn ffyrdd o sicrhau bod mwy o garbon organig yn y ddaear. Mae costau mewnbwn, ar gyfer hadau, tanwydd, tail gwartheg a deunyddiau eraill y fferm, yn isel – gan gostio oddeutu £12,000 y flwyddyn.

Mae cynhyrchiant y rhan fwyaf o gnydau yn Nhyddyn Teg ychydig yn is na'r meincnod ar gyfer cynhyrchiant organig, er bod gan y fferm welliannau ar y gweill.

# BWYD A'R GYMUNED

Yn ogystal â bod yn symudiad amgylcheddol, mae amaethecoleg yn symudiad cymdeithasol dros well cydraddoldeb, ac yn cynnwys ffermwyr yn y broses o gymryd rheolaeth dros systemau bwyd drwy gynhyrchu bwyd fforddiadwy i'r gymuned leol.

Prif nod Tyddyn Teg yw parhau i wella mynediad at lysiau ffres ar gyfer eu cymuned leol gan ofalu am yr amgylchedd.  Yn hytrach na chynhyrchu cnydau arbenigol neu gourmet ar gyfer bwytai, neu ar gyfer eu hallforio, maent yn canolbwyntio ar gynhyrchu llysiau er mwyn eu gwerthu'n uniongyrchol i'r bobl leol. Maent yn cydnabod y tensiwn rhwng cadw pris bwyd o safon yn fforddiadwy, ac felly yn hygyrch i bawb, a darparu cyflog ac amodau priodol i'r bobl sy'n ei gynhyrchu.

Gyda siop y pentref bellach wedi cau, mae'r siop ar y safle yn Nhyddyn Teg hefyd wedi dod yn rhan annatod o'r gymuned gan ddarparu gwasanaeth mawr ei angen i'r ardal gyfagos. Maent yn cefnogi busnesau eraill yn yr ardal drwy fanwerthu eu cynnyrch yn siop y fferm, darparu llysiau i'r siopau lleol gael eu gwerthu, a chydweithio gyda ffermydd amaethecolegol cyfagos i rannu offer a chyflenwadau swmp-brynu. Maent yn gwneud hyn oherwydd eu bod eisiau gweld cynnydd yn niferoedd y cynhyrchwyr bwyd bach llwyddiannus fel nhw.

Mae'n ymroddedig i ddatblygu ei gofod cymunedol er mwyn cynnal digwyddiadau, a chynnwys yr aelodau yn ogystal â'r gymuned leol drwy gynnal diwrnodau gwirfoddoli, ciniawau cymunedol, ymweliadau gan ysgolion a diwrnodau agored, gan hyrwyddo bwyd da a llysiau da. Yn ddiweddar, sefydlodd y fferm "Gronfa Undod Cymunedol", a fydd yn defnyddio arian a godwyd o ddigwyddiadau a chynllun cyfranddaliadau cymunedol arfaethedig i ariannu prosiectau a gweithgareddau sydd o fudd i'r gymuned leol a byd-eang. Mae'r cynllun hwn yn bosibl oherwydd y cysylltiadau cryf sydd ganddynt gyda'u cwsmeriaid a'r ardal leol, yn ogystal â'u gallu i apelio at fuddsoddwyr moesegol lle mae elw, y bobl, a'r blaned yn bwysig iddynt.







'DOES DIM SIOPAU YN Y PENTREF CYFAGOS, AC MAE AELODAU O'N CYMUNED LEOL WEDI DWEUD WRTHYM GYMAINT YR OEDDEN NHW'N GWERTHFAWROGI'R FFAITH Y GALLENT GAEL NWYDDAU HANFODOL GENNYM YN YSTOD CYFNODAU CLO COVID YN 2020, PAN FYDDENT WEDI BOD YN AMHAROD I DEITHIO YMHELLACH I ARCHFARCHNADOEDD'"



MAE LLWYBR TROED O FETHEL, SEF PENTREF CYFAGOS, YN CROESI'R FFERM, AC ROEDD YN AMHOSIBL DEFNYDDIO HWNNW OHERWYDD YR HOLL ORDYFIANT OEDD YNO PAN BRYNON NHW'R FFERM. BELLACH, MAENT WEDI TACLUSO'R LLWYBR TROED, AC WEDI'I AIL-AGOR I'R CYHOEDD UNWAITH ETO.




# CYDRADDOLDEB

Cwmni cydweithredol yw Tyddyn Teg, ac nid fferm deuluol draddodiadol sydd â theulu yn berchnogion, ac o bosibl gweithwyr ychwanegol yn gweithio iddynt. Er mai dim ond yn 2015 y cafodd y cwmni ei sefydlu, maent yn credu bod y model hwn yn sicrhau goroesiad hirdymor i'w busnes, a hynny heb anawsterau rhwng cenedlaethau fel y mae ffermydd teuluol yn aml yn eu hwynebu. Un o egwyddorion craidd ein busnes yw cydraddoldeb (o ran pŵer a chyflog) rhwng yr aelodau, yn wahanol i system sydd â pherchnogion, rheolwyr a gweithwyr. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod pob aelod o'r gydweithfa yn edrych ar bethau yn yr hirdymor, ac yn cael eu cymell i weithredu er budd y busnes cyfan.

MAE GAN BOB AELOD REOLAETH A CHYFRIFOLDEB DROS RYW RAN O'R BUSNES, AC MAE HYN, YN EIN BARN NI, YN RHOI PROFIAD SY'N CYNNIG MWY O FODDHAD NA SEFYLLFA LLE NAD OES GAN WEITHWYR FAWR DDIM CYFLE, OS O GWBL, I GYFRANNU AT BENDERFYNIADAU.


YN YR UN MODD, MAE PENDERFYNIADAU O BWYS SY'N EFFEITHIO AR YR HOLL FUSNES, FEL NEWIDIADAU I'N POLISÏAU NEU BENDERFYNIADAU I YSGWYDDO DYLED NEU GYFLOGI AELODAU NEWYDD, YN GORFOD DOD I GONSENSWS GAN YR HOLL AELODAU. GOLYGA HYN FOD Y BROSES O WNEUD PENDERFYNIADAU YN CYMRYD MWY O AMSER, OND RYDYM YN TEIMLO BOD HYNNY'N GWEITHIO'N WELL I NI FEL CWMNI.'















Am ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu | wwf.org.uk

Symbol panda ©1986 a Nod Masnach Gofrestredig WWF ®"WWF". Mae WWF-UK yn elusen gofrestredig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warrant (4016725)

CYNHYRCHWYD MEWN CYDWEITHREDIAD

Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales

LLUNIAU: © ALED LLYWELYN / WWF CYMRU